



DOLGELLAU

Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth
Chambers Conservation Ltd.

Argraffiad

Argraffiadau 5: Fersiwn Terfynol



Chambers Conservation Ltd

Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif 09787239

Cyfeiriad cofrestredig: Mercury House, High Street, Tattenhall, CH3 9PX

www.chambersconservation.com

Cynnwys

Y Rhan Gyntaf, Gwerthusiad Ardal Gadwraeth

- 1.0 Cyflwyniad
 - 1.1 Sut mae Defnyddio'r Ddogfen Hon
 - 1.2 Trosolwg o'r Ardal Gadwraeth
- 2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig
- 3.0 Llinell Amser Hanesyddol
- 4.0 Dadansoddiad Gofodol
 - 4.1 Ffurf a Threfn
 - 4.2 Golygfeydd Allweddol
 - 4.3 Mannau Gleision a Choed
- 5.0 Cymeriad
 - 5.1 Trosolwg
 - 5.2 Ardaloedd Cymeriadol
 - 5.3 Deunyddiau
 - 5.4 Ffiniau
 - 5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill
- 6.0 Asedau Hanesyddol
 - 6.1 Dynodedig
 - 6.2 Annynodedig
- 7.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)
- 8.0 Asedau Dynodedig Eraill
- 9.0 Bioamrywiaeth

Yr Ail Ran, Cynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth.

- 1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB

- 2.0 Deall y Materion
 - 2.1 Cyflwr
 - 2.2 Adeiladau mewn Perygl
- 3.0 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB
- 4.0 Rheolaeth Gadarnhaol
 - 4.1 Asesu Ffiniau
 - 4.2 Diogelwch Deddfwriaethol
 - 4.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
 - 4.4 Cynaliadwyedd
 - 4.5 Bioamrywiaeth
- 5.0 Ymgynghoriad



Y RHAN GYNTAF – GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Sut mae defnyddio'r ddogfen hon


- 1.1.1 Dylid darllen y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth yma ar y cyd â'r ddogfen **Cyflwyniad i Ardaloedd Cadwraeth ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain**, y gellir ei lawrlwytho o wefan y Parc Cenedlaethol. Mae'r ddogfen honno'n cynnwys eglurhad o ddiben a methodoleg y Gwerthusiad, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddiad, a'r cefndir o ran cynllunio a deddfwriaeth.
- 1.1.2 Yn ogystal â'r Cynllun Rheolaeth sy'n mynd gyda'r Gwerthusiad Ardal hwn, cafodd dogfen bellach **Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol**, ei pharatoi er mwyn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd presennol, a rhoi cyngor ar sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol a'r rhai o bwysigrwydd lleol, heb niweidio eu cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

1.2 Golwg cyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

- 1.2.1 Diffinnir hyd a lled ardal yr astudiaeth yn rhannol gan ffin yr Ardal Gadwraeth (gw. Ffig. 02), ond cynhwyswyd y cyffiniau agos (gan gynnwys yr ardaloedd tirwedd gerllaw) er mwyn deall y cyd-destun ehangach a phenderfynu a fyddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn addas.

Lleoliad a Gosodiad

- 1.2.2 Tref fechan yng Ngwynedd yw Dolgellau. Mae'n gorwedd yn nyffryn bas Afon Wnion wrth i honno ymledu'n raddol cyn ymuno â'r Mawddach ger Llanelltyd ac yna i Aber Mawddach y tu hwnt. Mae Afon Aran yn llifo drwy'r dref, yn ymuno â'r Wnion i'r dwyrain o'r Bont Fawr.
- 1.2.3 I'r de o'r dref, ac yn weladwy iawn mae crib amlwg Cadair Idris sydd yn 893m AOD ar y copa. I'r gogledd-ddwyrain mae'r Rhinogydd ac i'r gogledd-orllewin, tuag at y Bala, mae'r brynau sy'n codi at Aran Fawddwy sy'n 905m.
- 1.2.4 Saif y dref ar gyffordd bwysig, i'r gorllewin mae'r ffyrdd yn ymrannu bob ochr o'r Mawddach, yn croesi yn Llanelltyd, tuag at Abermaw a Thywyn, a'r ffyrdd gogleddol i Flaenau Ffestiniog a'r Bala. Mae'r dwyrain yn arwain at y Trallwng ac i'r de i Fachynlleth.




01 Dolgellau tua.1880. Llun gan Photography.Wales.

Cefndir

- 1.2.5 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar ac yn cyfeirio at Astudiaeth Nodweddion Trefol Cadw, 2010. Paratowyd y ddogfen hon i gefnogi cynllun treftadaeth tirlun llwyddiannus iawn yn y dref, sydd wedi gwneud cryn dipyn o wahaniaeth o ran gwella'r dref a sicrhau dyfodol nifer o adeiladau oedd yn cael eu tan-ddefnyddio ac mewn perygl.
- 1.2.6 Gellir gweld y ddogfen yma:
- https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Dolgellau-%20Understanding%20Urban%20Character_0.pdf

Dynodiad

- 1.2.7 Dynodwyd yr Ardal Gadwraeth yn 1978.




Ardal Gadwraeth Bresennol
1:4000 ar A4

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

- 2.1.1 Mae Dolgellau yn dref unigryw a chymhleth. Mae ei gwreiddiau canoloesol yn amlwg iawn, drwy'r lleiniau afreolaidd sy'n cael eu croesi gan aleau cul yn cysylltu gofodau ehangach.
- 2.1.2 Mae'r adeiladau yn dilyn ffurf y lleiniau sy'n arwain at onglau anarferol, manylion annisgwyl a golygfeydd neilltuol. Mae gweddillion y cynllun canoloesol yn arwain at ein dealltwriaeth am ddatblygiad y dref ac o ganlyniad ei gwerth hanesyddol ac esthetaid.
- 2.1.3 Rhan hanfodol o'r diddordeb arbennig yw graddfa a ffurf yr adeiladu. Mae'r adeiladau cynnar yn aml yn un llawr a hanner, graddfa domestig, ac mae nifer o'r rhain ar ôl. Gwelir y rhain reit nesaf at adeiladau o hyd at bedwar llawr. Yn y cyferbyniad hwn mewn graddfa ac adeiladu y mae gwerth esthetaid y dref, a thros hwnnw mae cynllun afreolaidd iawn sy'n arwain at lawer o olygfeydd gwerth chweil a phwysig.
- 2.1.4 Mae gosodiad y dirwedd yn bwysig i ddiddordeb arbennig a gwerth esthetaid y dref. Disgrifir hanfod y dref yn dda gan y teithiwr Pictwresg Roscoe, a ddywedodd yn 1853, fod y dref wedi'i 'encircled by mountains'.¹ Mae'r mynyddoedd i'w gweld yn syth, yna'n cael eu sgrinio cyn ail-ymddangos wrth i stryd fynd yn lletach neu newid cyfeiriad. Mae'r tir amaethyddol sy'n weddill, oddi mewn i'r ardal gadwraeth a nesaf ati yn arwyddocaol hefyd ac yn bwysig mewn golygfeydd allweddol.
- 2.1.5 Yn y bôn, y deunyddiau neu'r garreg yn benodol, sydd wedi'i thrin mewn amryw o ffyrdd, yn ogystal â'i lliw nodweddiadol brown-lwyd a gwyrdd sy'n rhoi cysondeb esthetaid pendant i'r dref. Yn hanesyddol byddai cryn swm o wyngalch a rendr wedi'u defnyddio, ond heddiw mae Dolgellau yn dref o garreg a llechen, sy'n cyfeirio at arwyddocâd diwylliannol a chymunedol wrth i'r dref ddod yn 'gyrchfan gwyliau mynyddig' yn yr 19eg ganrif.
- 2.1.6 Mae ansawdd y ffenestru yn y dref yn greiddiol i'w diddordeb arbennig. Mae cryn dipyn o waith pren gwreiddiol neu gynnar, yn enwedig ffenestri codi, ond hefyd rhai ffyrntiau siop a manylion eraill. Erys tipyn o wydr hanesyddol hefyd, sy'n cyfrannu at y gwerth hanesyddol ac esthetaid.

¹Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (London), p.218.



03 Ysgythriad o'r Bont Fawr a Dolgellau, c.1878, yn fuan wedi dyfodiad y rheilffordd.



04 Y Stryd Fawr (Sgwâr Eldon). (2022).

2.1.7 Erbyn heddiw mae'r cymeriad yn dal i gael ei ddylanwadu gan rôl y dref fel lle masnach, yn arbennig y diwydiannau Gwlân a Thrin Crwyn. Mae hyn yn bwysig iawn i werth masnachol y dref, ond hefyd mae iddo arwyddocâd esthetaidd a hanesyddol cryf. Mae'r agweddau allweddol yn cynnwys

- Adeiladau a godwyd neu a addaswyd at ddibenion gwehyddu, yn cynnwys drysau mynediad ar lefel uchel, trawstiau codi a manylion eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Forden House, Ty Seren a hen ysgoldy Capel Salem.
- Melinau a wrysau (ddim pob un i'r diwydiant gwlân) yn cynnwys y rheiny i'r dwyrain o Ffos-y-Felin ac ar Stryd Wtra'r Felin.

2.1.8 Gyda dyfodiad y rheilffordd a datblygiad y dref fel cyrchfan gwyliau, gwelwyd haen arall o gymeriad pendant, sy'n hanfodol i'w arwyddocâd esthetaidd. Mae elfennau allweddol yn cynnwys

- Filâu mawr yn sefyll yn eu tir eu hunain i'r gorllewin o'r dref, uwchben Ffordd Cader Idris.
- Datblygu adeiladau mwy yn y dref i fod yn lletyau gwyliau.



05Deunyddiaeth, topograffeg a natur afreol y gofod.Oddi ar Maes-y-Pandy (2022)



06Filâu mawr yn edrych dros y dref uwchben FforddCader Idris. Bryntirion (2022).

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

Cynhanes

Canoloes
ol Cynnar

- 3.1.1 Ymdrinnir yn fanwl â hanes Dolgellaumewn mannau eraill. Ni fwriedir i'r crynodeb isod roi ond cyd-destun yr arfarniad a'r asesiad diddordeb arbennig.
- 3.1.2 Ceir tystiolaeth o weithgaredd cynhanes ar hyd y Mawddach, gyda bwyell carreg Neolithig wedi cael eu darganfod.²
- 3.1.3 Mae tystiolaeth o nifer o safleoedd Defodol ac Angladdol yn ardal Dogellau megis Beddrod Pentre Farm Barrow³ ger Llanelltyda Hafod Dywyll, Islaw'r Dref, lle mae saith carnedd yn agos at ei gilydd. Dengys hyn gryn dipyn o weithgaredd y yr Oes Efydd Gynnar, er y deallir y gellir olrhain y dystiolaeth gyntaf o weithgaredd dynol i tua'r bedwaredd mileniwm CC.⁴
- 3.1.4 Ar yr ucheldir o gwmpas Dolgellau mae clystyrau o anheddiad domestig o'r cyfnod cynhanes diweddarach yn ogystal â strwythurau amddiffynnol, megis Coed Pen-y-Bryn⁵ a Moel Offrwm⁶ i'r gogledd a Tyddyn-y-Coed i'r de-orllewin.
- 3.1.5 Mae'n bur debyg fod anheddiad yn rhannau isaf y dyffryn, sydd wedi'i guddio gan ffermio neu ddatblygu diweddarach gan y byddai wedi bod yn dir amaethyddol gwerthfawr.
- 3.1.6 Er bod ffyrdd a safleoedd milwrol (yn cynnwys caer ym Mrithdir), ychydig o dystiolaeth sydd o anheddiad Rhufeinig ar y lefelau is, er bod cofnod at ddarnau arian Rhufeinig yn 1834 yn Ffynnon Mair.⁷
- 3.1.7 Mae'r cyfeiriad cyntaf at Ddolgellau yn 1284, pan restrwyd ei fod yn cael ei ddal gan denantiaid 'rhwymedig' fel un o'r pedair trefgordd ar ddeg yng nghwmwd Talybont. Fe'i sefydlwyd, yn ôl yr awgrym, gan Cadwgan ap Bleddyn, Tywysog Powys. Tarddodd y dref fel anheddiad cynhenid Gymreig, anheddiad rhwymedig o fewn y Cwmwd. Ar yr adeg hon roedd yr anheddiad yn fach iawn, gyda dim ond tri threthdalwr yn cael eu rhestru yn 1292-3.

²<https://www.archwilio.org.uk/arch/query/page.php?watprn=GAT4122&dbname=gat&tname=core&sessid=CH12t5x7pp5&queryid=Q684001001646141440>

³<https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=1149>

⁴ Gwynedd Archaeological Trust (GAT) report no. 1030 (Evans, R & Davidson A), Arfarniad Ardal Gadwraeth drafft Pandy'r Olyn, 2012.

⁵<https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=926>

⁶<https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=2457>

⁷ Brooks, I.P.(2017), *Pias Newydd, Eldon Square, Dolgellau, Meirionnydd*. P.4



07 Rhan o Fap Degwm (1842)



08 Ffotograff o Ddolgellau a Chadair Idris tua diwedd y 19eg ganrif. (diolch i Photography Wales)

- 3.1.8 Roedd ganddi eglwys o'r dyddiau cynnar (cyfeirir ati yn y *Valuation of Norwich* 1253)⁸, er mai Abaty Cymer oedd y prif ganolbwynt crefyddol yn lleol.
- 3.1.9 Cwrt Plas yn Dre oedd yr adeilad hynaf a gofnodwyd yn y dref ac adroddir fod Owain Glyndŵr wedi defnyddio'r adeilad i gynnwll ei gynghreiriaid yn 1404, er bod cryn ddadlau am hyn. Dymchwelwyd yr adeilad yn 1885 a'i ail-godi'n rhannol ger y Drenewydd. Bellach T H Roberts (Parliament House) sy'n sefyll ar y safle.
- 3.1.10 Yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg, daeth Dolgellau yn sedd y Cwmwd, neu lys cantref, a datblygwyd marchnad oedd yn adlewyrchu lleoliad y dref ar lan yr afon a rhwng ffermydd da byw yr ucheldir a'r tir â'r yn y dyffryn. Erbyn canol y bymthegfed ganrif roedd y farchnad hon wedi datblygu monopoli ar fasnach yn yr ardal.⁹Fodd bynnag, roedd yn dal i gyfeirio at Dogellau fel 'pentref' yn yr 1530au.¹⁰
- 3.1.11 Ar ddechrau'r 17eg ganrif, cwblhawyd Neuadd y Dref ac roedd hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol y dref fel canolfan weinyddol. Sefydlwyd ysgol ramadeg gyntaf Cymru yn 1665 gan Reithor Dolgellau, Dr John Ellis, ym Mhen Bryn.
- 3.1.12 Mae Dolgellau'n adnabyddus hefyd am ei chymuned gryf o Grynwyr.¹¹Mae'n debyg fod grŵp o ffrindiau (fel roedd y Crynwyr yn eu galw'u hunain) yn Nolgellau yn barod, ond ymwelodd un o sylfaenwyr y mudiad, George Fox, â'r dref yn 1657 a helpodd hyn i godi'r niferoedd. Fodd bynnag, yn dilyn erlyn mawr, gadawodd llawer o Grynwyr Cymru am wladfa oedd newydd ei sefydlu yn Pennsylvania.¹²
- 3.1.13 Ffynnodd y diwydiant tecstilau yn y dref am amser gan gynhyrchu swm sylweddol o frethyn Cymreig. Yn y 16eg a'r 17eg ganrif, allforiwyd brethyn gwlân, drwy'r Amwythig, cyn belled ag America. O ganlyniad i'r llwyddiant hwn daeth Dolgellau yn y diwedd yn brif dref y sir.
- 3.1.14 Yn 1791 (yn yr Universal British Directory) disgrifir Dolgellau fel a ganlyn—'*Here is a modern-built parish-church. The buildings, in general, are low and irregular. The markets are on Tuesdays and Saturdays; and there are seven*

⁸ Lunt W.E (ed) *The Valuation of Norwich* (1926), Clarendon Press

⁹ Brooks, I.P.(2017), *Plas Newydd, Eldon Square, Dolgellau, Meirionnydd*. P.4

¹⁰Cadw (2010), *Dolgellau, Deall Nodweddion Trefol*. P.7.

¹¹<http://daibach-welldigger.blogspot.com/2021/07/the-quakers-of-dolgellau-1-beginnings.html>

¹²<http://daibach-welldigger.blogspot.com/2021/08/the-persecution-of-dolgellau-quakers.html>



09 'Parliament House of Owen Glyndwr Dolgelley' (Plas yn Dre), o ysgythriad o'r 19eg ganrif (Wikimedia Commons).



10 Sgwar Eldon, c.1900 (gyda chaniatâd Photography.Wales)

18fed
Ganrif

19eg
Ganrif

*fairs in the year. The tide flows within a mile of the town. The town and its vicinity are remarkable for the manufacture of what they call webbing or white plains, a kind of coarse woollen cloth undyed, chiefly for exportation.*¹³

- 3.1.15 Erbyn diwedd y 18fed ganrif, roedd Dolgellau wedi dod yn eithaf ffyniannus. Dylanwadodd y tîrfeddianwyr lleol ar ddatblygiad y dref ar ôl 1800. Roedd Fychaniaid Nannau a Hengwrt yn arbennig o arwyddocaol. Roedd ailadeiladu Eldon Row (c1830) o dan gyfarwyddyd Syr R.W. Vaughan yn ddechrau cyfnod pwysig o ailadeiladu 1830-1850, ac mae llawer o'r gwead adeiledig wedi goroesi. Vaughan oedd yn gyfrifol am ailadeiladu'r Golden Lion, ac roedd yn ddylanwadol yn adeiladu'r llys (1825) a'r carchar (1825) yn ogystal â'r Ysgol Genedlaethol.
- 3.1.16 Mae'r map degwm (c.1842) yn dangos yn gyffredinol anheddiad i'r de o Afon Wnion. Gellir dirnad fod gosodiad yr anheddiad yr un peth â'r dref bresennol.
- 3.1.17 Ar anterth y diwydiant Gwlân roedd 18 pandy yn Nolgellau a'r cyffiniau cyn i fecaneiddio arwain at ddirywiad cyflym. Roedd aur yn cael ei gloddio yn y brynau i'r gogledd o'r dref o'r 19eg ganrif ymlaen ac elwodd y dref ar y fasnach a grëwyd gan y mwynwyr. Y gloddfa enwocaf yw Clogau yn Bontddu. Ers 1923 mae aur a gloddiwyd yma wedi cael ei ddefnyddio i wneud modrwyau priodas y teulu brenhinol.
- 3.1.18 Roedd gan Ddolgellau ddiwydiant trin crwyn pwysig hefyd, a oedd yn troi crwyn anifeiliaid yn lledr drwy ddefnyddio'r rhisgl derw a oedd yn doreithiog yn lleol. Caeodd tanerdy olaf Dolgellau yn yr 1980au.
- 3.1.19 Ers y 18fed ganrif, mae ymwelwyr ac arlunwyr wedi bod yn dod i'r ardal i werthfawrogi tirweddau Cadair Idris ac aber y Mawddach. Roedd dyfodiad y rheilffordd yn tanlinellu statws Dolgellau fel cyrchfan mynyddig a gwnaeth y dref yn fwy hygyrch i ymwelwyr. Roedd hi eisoes wedi bod yn arhosfan pwysig i'r goets fawr ar ddiwedd yr 19fed ganrif.
- 3.1.20 Wedi i'r rheilffordd gyrraedd, datblygodd y dref yn sylweddol yn y blynyddoedd dilynol, ac roedd hyn yn cynnwys adeiladu cryn nifer o filâu a lletyau gwyliau.

¹³<https://www.genuki.org.uk/big/wal/MER/Dolgellau/UniDir1791>



11 Tafarn yr Hen and Chickens a'r Bont Fawr (diolch i Photography.Wales)



12 Plas Newydd, c.1900. (diolch i Photography.Wales)



- 3.1.21 Yn sgil dirywiad y diwydiant tecstilau aeth y dref yn ôl i fod yn ganolfan amaethyddol fwy na heb, gyda masnach dwristaidd yn dechrau ymddangos a phwysigrwydd cynyddol fel tref sirol.
- 3.1.22 Yn ystod yr 20fed ganrif, daeth Dolgellau yn fwy a mwy pwysig fel canolfan weinyddol, gyda chryn bwyslais ar fod yn gyrchfan i dwristiaid ac ymwelwyr.
- 3.1.23 Yn yr 1920au datblygwyd y tir i'r gogledd o'r Bont Fawr a'r dwyrain o Afon Aran. Ehangwyd y tir i'r gogledd ymhellach ar ôl yr ail ryfel byd. Mae'r dref yn parhau i ehangu, i'r gogledd a'r dwyrain, yn ogystal â thuag at Pandy'r Odyn yn y gorllewin.

4.0 Dadansoddiad Gofodol

4.1 Ffur a Threfn yr Anheddiad

- 4.1.1 Nodwyd ers tro fod Dolgellau yn dref o gynllun afreolaidd, dywedwyd mewn arolwg yn 1888 *'The Town has been built with an entire absence of preconceived plan, being an irregular network of narrow lanes, and the houses are often extremely cramped for space'*.¹⁴
- 4.1.2 Mae adroddiad *Deall Nodweddion Trefol* Cadw yn nodi sut mae'r dref fel pe'n parchu ffiniau'r daliadau tir cynnar, a fyddai wedi cael eu trefnu o amgylch ardal o ofod agored, megis y farchnad ganoloesol a ddaeth wedyn mae'n debyg yn sgwâr Eldon a sgwâr y Frenhines.
- 4.1.3 Ymddengys fod y patrwm strydoedd afreolaidd a dolennog yn parchu'r ffiniau cynharach hyn, gan arwain at y corneli, cyffyrdd, onglau a'r elfennau crymion nodweddiadol ond anghyffredin, sy'n rhoi cymeriad pendant iawn i'r dref.
- 4.1.4 Mae'r ffyrdd, y llwybrau a'r aliau yn aml yn gul, ond yn agor allan i ofodau ehangach. Mae'r rhain yn nodwedd arbennig o'r dref, yn enwedig y gofodau llai gydag adeilad wedi'i osod ar ongl sgwâr, megis Heol Feurig o flaen Tan-y-Gader, cyffordd Maes-y-Pandy a'r Domen Fawr a'r darn o flaen yr hen swyddfa heddlu ar Y Lawnt.
- 4.1.5 Mae'r ffordd y mae datblygiadau'n tresmasu ar y llefydd agored hefyd yn nodwedd amlwg, gydag adeiladau neu grwpiau yn sefyll 'ar eu pennau eu hunain' o fewn gofod ehangach. Mae hyn yn arbennig o amlwg o gwmpas

¹⁴Cadw (2010), *Dolgellau, Deall Nodweddion Trefol*. T.16, o adroddiad yn 1888.



13 Gorsaf Dolgellau tua 1950.



14 Y stryd yn lledu o flaen Tan-y-Gader (2022).

Sgwâr Eldon, llae mae Tŷ Meirion, Y Sospan Fach a Gwesty'r Royal Ship. Mae'r lleiniau hyn yn creu ynysoedd o ddatblygiad ar wahân o fewn y farchnad ganoloesol.¹⁵

- 4.1.6 Gyda thwf y boblogaeth cafodd y lleiniau eu 'mewnlenni' ac erbyn diwedd y 19eg ganrif roedd adeiladau dwys iawn mewn rhannau o'r dref, drwy greu cyrtiau, tai cefn wrth gefn a thai yn rhesi. Mae bron y cyfan o'r datblygiad hwn wedi diflannu, ond erys olion i'r de o'r Lawnt (gweler Ffig.16).¹⁶
- 4.1.7 Tan ganol yr ail ganrif ar bymtheg roedd y dref wedi'i chyfyngu'n bennaf i'r de o Afon Wnion, ar wahân i res reit i'r gogledd o'r Bont Fawr (gweler Ffig.11), a oedd yn cynnwys adeilad sylweddol tafarn yr Hen and Chickens.
- 4.1.8 Ar ddiwedd yr 19eg ganrif, torrwyd strydoedd mwy rheolaidd drwy'r dwyrain i Sgwâr Eldon, crëwyd Heol Glyndwr ac ym Mhlas yn Dre dymchwelyd Cwrt Plas yn Dre a strwythurau cynharach eraill.
- 4.1.9 Mae ffurf y tir wedi dylanwadu ar y patrwm datblygu hefyd, gyda filâu yn meddiannu'r tir uwch i'r de o ddiwedd y 18fed ganrif, tir a fu'n amaethyddol cyn hynny. Mae hyn yn adlewyrchiad hefyd o boblogrwydd newydd y dref fel cyrchfan i ymwelwyr.
- 4.1.10 Roedd dyfodiad y rheilffordd yn hyrwyddo datblygiad ond arweiniodd hefyd at ddymchwel yr Hen and Chicken ac addasu pen gogleddol y Bont Fawr i wneud lle i'r llinell a'r orsaf.
- 4.1.11 Mae gan y dref nifer o ardaloedd cymeriad pendant, yr edrychir yn fwy manwl arnynt yn adran 5.

4.2 Golygfeydd allweddol

- 4.2.1 O fewn yr ardal gadwraeth ceir sawl golygfa allweddol sy'n darlunio naill ai ddatblygiad hanesyddol y dref, yn caniatáu gwerthfawrogi nodweddion neilltuol neu adeiladau allweddol, neu'n rhoi amgylffrediad cywir o'i ddatblygiad o fewn y tirlun ehangach. Mae golygfeydd eraill yn gipolygon pwysig rhwng adeiladau neu'n nodweddion pwysig sy'n cyfrannu at amgylfred o'r ardal neu ei chymeriad.
- 4.2.2 Mae golygfeydd naill ai'n statig (golygfa gyfeiriadol benodol) neu'n ddynamig, gan gynnwys maes golwg o fan neilltuol.

¹⁵Cadw (2010), *Dolgellau, Deall Nodweddion Trefol*. T.39

¹⁶Cadw (2010), *Dolgellau, Deall Nodweddion Trefol*. T.16



17 Golygfa heibio lard y Lion at yr eglwys. (2021).



18 Sgwar Eldon tua Cadair Idris. (2021).

4.2.3 Mae'r rhain fel a ganlyn (gw. Ffig. 23 hefyd):

AGolygfeydd dynamig o'r Bont Fawr tuag at y dref (1) ac ar draws y bont tuag at y datblygiadau diweddarach i'r gogledd (2).

BGolygfa ddynamig o flaen Neuadd y Sir yn edrych i'r de.

CGolygfeydd o amgylch terasau diwedd y 19eg ganrif a'r datblygiad diwydiannol i'r dwyrain o ganol y dref. (1)golyga yn gyfochr â hen weithdy'r crydd oddi ar Heol Glyndwr. (2)Golygfeydd ar hyd Heol Glyndwr. (3)Golygfa oddi ar Cae Tanws Bach i mewn i'r rhes unionsyth ym Minafon a (4) Golygfeydd ar hyd yr ale oedd yn cysylltu English Terrace ac Adeiladau Tanyrafon.

DGolygfeydd ar draws i gefn ac adeiladau allan Gwesty'r Golden Lion.

EGolygfeydd o amgylch yr eglwys, ar draws lard y Lion(1) a thuag at wyneb y Golden Lion Royal Hotel (2).

FGolygfa ar hyd Stryd Plas-yn Dre.

GGolygfeydd o amgylch Sgwâr Eldon a Llys Owain. Ar hyd ochr y Sospan Fach(1), Tuag atRhesdai Islwyn (2), Golygfa ddynamig tuag at Westy'r Royal Ship (3), at Neuadd Idris gyda Chadair Idris yn y cefndir(4), Golygfa ddynamig tuag atTŷ Meirion(5), Ar hyd ochr Neuadd Idris (6), ofwâu Neuadd Idris tuag at yr adeiladau rhestredig gyferbyn(7), I mewn i'r sgwâr o gyffordd Heol Feurig(8).

HGolygfeydd ar hyd Wtra'r Felin.

I Golygfeydd dynamig o Bont yr Aran tuag at Rhesdai Fro Heulog (1)a bwthyn Pont-yr-Arran (2).

JGolygfeydd o amgylch Heol Feurig.Golygfa ddynamig o ffasâd Capel Ebeneser gyda'r Eglwys Gatholig ac adeiladau eraill(1). Golygfa o Star House (2), Golygfa ddynamig o'r ffordd yn lledu a Than-y-Gader (3)¹⁷, Golygfa ddynamig o'r Eglwys Gatholig a Heol Feurig (4).

KGolygfeydd o amgylch Bryn Teg, Heol Plas Uchafa'r Domen Fawr/Llys Meurig. Golygfa ddynamig ar draws tir agored y tu ôl i Gapel Ebeneser, Ty Meurig a Cemlyn Cottage (1). Golygfa gul ar hyd Upperfield Street (2), Golygfeydd dynamig ar draws y dref o Fryn Teg gyda Foel Offrwm (3),



19 Golygfeydd o Fryn Teg tuag at Foel Offrwm. (2022).



20 Ar draws y bont droed tuaMaes-y-Pandy. (2022).

¹⁷Sylwer – cyfeirir ato fel 'Tay-y-Gader yn y rhestriad:<https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=5045>

Golygfa ddynamig ar draws tir agored ar ddiwedd Bryn Teg tuag atFaes-y-Pandy **(4)**, Golygfa gogledd-ddwyrainar hyd Heol Feurig **(5)**, Golygfa ddynamig heibio Frondeg ar agoriad y ffordd**(6)**, Golygfa de-ddwyrain ar hyd Y Domen Fawr **(7)**.

LGolygfeydd o amgylch Maes-y-Pandy. Golygfa ddynamig tuag at Y Graig a Roslyn **(1)**, Golygfa gul de-ddwyrain**(2)**, Golygfeydd ar hyd cefn adeiladau o'r bont droed**(3)**, Ar draws y bont droed rhwng 'Riverside' a'r hen weithdy tuag atFaes-y-Pandy **(4)**. Ar hyd Maes-y-Pandy yn edrych gogledd-ddwyrain**(5)**, Golygfa ar draws tir agored o'r llwybr troed**(6)**.

MGolygfeydd oTylau Mair (Love Lane)a rhan uchaf Heol Feurig. Golygfa ddynamig o'r llwybr troed islaw Pen-y-Banc **(1)**, Golygfa ar hydTylau Mair heibio Pen Brynbella gyda'r brynau y tu hwnt**(2)**, Golygfa ddynamig nesaf at y gatiau i Fryn Mair **(3)**, Golygfa ddynamig oFryn Mair heibio Ffynnon **(4)**. Golygfa o gefn Erw Wen, gyda'r brynau y tu hwnt**(5)**. Golygfa tuag atGapel Judah **(6)**.

NYn gul o amgylch cyrion yr ardal gadwraeth o amgylch Ffordd Bodlondeb.Cipolygon o'r dref drwy'r coetir uwchlaw Ffynnon Fair**(1)**, Golygfeydd dynamig ar hyd Ffordd Bodlondeb ac ar draws ffermdir agored gyda waliau cerrig**(2)**, o'r coetir tuag at lwybr y fferm**(3)**, Golygfa ddynamig ar draws filâu islaw Ffordd Bodlondeb **(4)**, Golygfa ddynamig o'r Llwybr uwchbenBrynhryd **(5)**.

PGolygfeydd o amgylch Brynhryd. Golygfa ddynamig ar draws y ffasâd tuag at y dref a'r brynau **(1)**. Golygfa i lawr y ffordd nesaf ato yn edrych i'r gogledd-ddwyrain**(2)**, Golygfa ddynamig gyda stablau **(3)**.

R Golygfeydd o amgylch Y Lawnt (darn gogledd-ddwyrainiol). Golygfeydd tuag at yr orsaf heddlu**(1)**a safle'r hen ysgol**(2)**, golygfa ar hyd Ffordd Cader Idris **(3)**.

S Golygfeydd o amgylch Y Lawnt a Lôn Popty. Golygfa ddynamig tuag at yr 'Old Merionethshire Bank'¹⁸a'r adeiladau rhestredig cyfagos**(1)**. Golygfa lle mae'rLawntyn lledu wrth ochr y teras gyferbyn â'r orsaf heddlu**(2)**. Golygfa o'r teras sy'n unionsyth â'r Lawnt **(3)**, gweler hefyd ffig. 16

¹⁸<https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=5018>



21 Golygfa heibio Pen Brynbella at y brynau y tu hwnt. (2022).



22 Tir fferm agored o gwmpas Pen-y-Bryn. Sylwer yr adeilad cynharach tu cefn i'r ty gyda tô haearn rhydog (2022).


T Golygfeydd o amgylch Heol-y-Capel. Golygfa tuag at Gapel Tabernacl a chefn adeilad ‘Mawddach Whole Foods’ **(1)**.¹⁹Cipolwg o’r Capel o Ffordd Cader Idris **(2)**, Golygfa ddynamig tuag at y Capel o Ffordd Cader Idris **(3)**.


V Golygfeydd o amgylch Porth Canol (Finsbury Square). Golygfa i’r gorllewin ar hyd Porth Canol tuag at y teras ar gornel Heol Ffynnon **(1)**. Golygfa gul i lawr Heol Ffynnon gyda’r felin**(2)**, Golygfa ddynamig tuag at Ivy House a Maldwyn House **(3)**.

4.3 Mannau gleision a Choed

- 4.3.1 Gweddillion tir amaethyddol yw’r prif fannau gleision yn ardal cadwraeth Dolgellau. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn awr ac yn rhoi cyd-destun i’r golygfeydd da o’r dref hanesyddol.
- 4.3.2 Mae’r ffermdir yn fwyaf helaeth i’r de o’r ardal gadwraeth, ar hyd Ffordd Bodlondeb, o amgylch Fron Arran a Phen-y-Bryn, yn ymestyn i lawr i ddiwedd Bryn Teg. Mae’r ardal hon yn arbennig o sensitif i ddatblygiad.
- 4.3.3 Ym mynwent Eglwys y Santes Fair mae nifer o goed yw da ond fel arall mae’n ofod cymharol syml. Mae’n bwysig yng nghyd-destun yr eglwys a’r adeiladau hanesyddol cyfagos.
- 4.3.4 Mae glannau Afon Aran hwythau’n darparu gosodiad pwysig, yn arbennig o gwmpas Maes-y-Pandy.
- 4.3.5 Mae nifer o erddi mwy ar ôl, sy’n gysylltiedig â’r tai mwy eu maint, a oedd yn torri ar ddatblygiad dwys y brif dref, ac mae’r rhain yn bwysig o safbwynt deall y dref yn ogystal â bod iddynt gymeriad pendant. Mae’r rhain yn cynnwys yr ardaloedd oddi ar Heol Plas Uchaf, y tu ôl i Gemlyn, Tŷ Meurig a Springfield.
- 4.3.6 Yn yr un modd mae gerddi mawr a gosodiad tai fel Bryn Mair a Chraig-y-Ffynnon, uwchben y dref, yn atalnodi pwysig i batrwm dwys yr adeiladu. Mae’r coed drwy’r ardaloedd gardd hyn, sy’n ymestyn i fyny ar y llethr ger Bodlondeb yn bwysig.

¹⁹<https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4995>





Ardaloedd Cadwraeth
1:4000 ar A4

5.0 Cymeriad

5.1 Ardaloedd Cymeriad, Trosolwg.

- 5.1.1 Mae Dolgellau yn ardal gadwraeth fwy ac mae ganddi nifer o ardaloedd o gymeriad pendant. Diffinnir nifer o ardaloedd cymeriad yn adroddiad manwl Cadw *Deall Nodweddion Trefol*. Roedd yr astudiaeth hon yn ymestyn y tu hwnt i'r ardal gadwraeth i gwmpasu gwead adeiledig ehangach y dref a'r cyffiniau. Er cysondeb, mae'r arfarniad Ardal Cadwraeth yn defnyddio'r ffiniau diffiniedig o astudiaeth Cadw, ond dim ond y rheiny sy'n berthnasol i'r ardal gadwraeth (h.y. ardaloedd 1-5).²⁰Dangosir y rhain ar Ffig. 24
- 5.1.2 Mae Llys Owain a'r Stryd Fawr yn adlewyrchu lleoliad y farchnad yn yr anheddiad canoloesol, y tyfwyd y datblygiad dwys ogyrch iddo. Diffinnir **Ardal Cymeriad 1** gan yr ardal hon gyda'r 'tresmasiadau' y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol, ynghyd â'r strydoedd llinell i'r dwyrain (Heol-y-Dwr, Heol Glyndwr a Heol Plas-yn-Dre) a Heol-y-Bont i'r Bont Fawr.
- 5.1.3 I'r gorllewin o'r Stryd Fawr y mae Eglwys y Santes Fair a'r ardaloedd o amgylch Y Lawnt. Dyma ffiniau gorllewinol y dref gynnar, a ddatblygodd yn lleiniau afreolaidd wedi'u gwahanu gan lonydd cul, a'r ardal hon yw **Ardal Gadwraeth 2**.
- 5.1.4 I'r de o'r Stryd Fawr, ffiniau **Ardal Cymeriad 3**, yw Afon Aran i'r dwyrain, yn ymestyn i Faes-y-Pandy yn y de. Mae'n cynnwys yr ardal nodweddiadol ddwys y tu ôl i Blas Newydd, yn ogystal ag ardaloedd o ddatblygiad diweddarach lle mae'r tir yn codi tuag at Fryn Teg a'r tir fferm rhwng Bryn Teg a Maes-y-Pandy.
- 5.1.5 Datblygwyd yr ardal i'r dwyrain o Ffos-y-Felin (hen gafn y felin) o ddiwedd y 18fed ganrif, gyda'r Llys newydd (1825) a'r gwaith nwy (1850). Mae'r datblygiadau o ddiwedd y 19eg ganrif yn bennaf, ond ceir olion cyfnod cyntaf datblygu diwydiannol (a oedd yn cynnwys tanerdy) a thai gwledig cynharach o fewn ardal o gymeriad diwydiannol. Gweler **Ardal Cymeriad 4**.
- 5.1.6 Mae **Ardal Cymeriad 5** yn cwmpasu'r ardal i'r gorllewin o Dylau Mair. Yma mae'r tir yn codi i Ffordd Bodlondeb, rhyw 50m uwchben Ffordd Cader

²⁰Cadw (2010), *Dolgellau, Deall Nodweddion Trefol*. t.45.



25 O arcêd Neuadd Idris (Tŷ Siamas) (2022).



26 Eglwys y Santes Fair, colofnau giât gan Coalbrookdale. (2022).

Idris. Nis datblygwyd nemor ddim tan y 19eg ganrif, pryd adeiladwyd filâu sylweddol wrth i'r dref ddod yn fwyfwy poblogaidd i ymwelwyr. Mae datblygiadau'r 20fed ganrif wedi dechrau tresmasu ar osodiad a thirwedd y filâu.

5.2 Ardaloedd Cymeriad.

Ardal Cymeriad 1, Ardal y Canol

- 5.2.1 Er ei bod wedi cael ei hailadeiladu'n sylweddol yn y 18fed a'r 19eg ganrif, mae Llys Owain a'r Stryd Fawr yn debygol o fod yn ddarlun o farchnad gynnar yr anheddiad canoloesol, lle digwyddodd datblygiadau dwys o'i hamgylch yn y lleiniau cyfagos.
- 5.2.2 Mae adeiladu'n 'tresmasu' i'r gofodau, a hynny'n creu cyfres anarferol o ofodau. Dechreuodd y tresmasu hwn cyn gynhared â'r 16eg neu'r 17eg ganrif. Mae'r neuadd y dref gynnar (Y Sospas Fach), y Royal Ship, yr Adeiladau Canolog ac Eldon Row i gyd yn nodweddiadol ar leiniau lled-ynysig.²¹
- 5.2.3 O gwmpas y farchnad, datblygwyd lleiniau o dir o amgylch y perimedr a arweiniodd at onglau, ffryntiadau ac aliniadau anarferol, pob un yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad y dref heddiw. Yn ddiweddarach crëwyd hefyd y 'llys' drwy adeiladu o amgylch ffiniau'r llain, gan arwain at batrwm adeiladu dwys iawn.
- 5.2.4 Afon Wnion, a'r Bont Fawr yn mynd trosti, sy'n diffinio ochr ogleddol y dref ganoloesol ac ymyl gogleddol yr ardal gadwraeth. Mae'r bont wedi'i rhestru ac mae'n dyddio'n rhannol o'r 17eg ganrif. Fe'i hailadeiladwyd a'i hehangu yn y 19eg ganrif a'i gogwyddo i bontio llinell reilffordd y Cambrian i'r gogledd. Mae'r Bont Fawr y tu allan i ffin bresennol yr ardal gadwraeth.
- 5.2.5 Neuadd y Dref, a adeiladwyd yn 1825 gan Edward Haycock o'r Amwythig, sy'n ffurfio trothwy'r dref (gweler Ardal Cymeriad 4).
- 5.2.6 Gyferbyn, mae Beechwood House yn adeilad o'r 19eg ganrif sydd wedi'i gadw'n dda. Tri llawr gyda tho slip, newydd ei atgyweirio. Mae'r ffordd yn lledu, ac yn creu gofod pendant, o flaen Neuadd y Sir sy'n adlewyrchu

²¹Cadw (2010), *Dolgellau, Deall Nodweddiol Trefol*. t.24.



27 Y Stryd Fawr (Eldon Square), yn edrych tuag at Tŷ Meirion. 2022.



28 Neuadd y Sir, 2022.

aliniad cafn y felin, a ddaeth wedyn yn Ffos-y-Felin, ac mae ffin y plot cynnar yn cael ei adlewyrchu gan ongl 1-3 Pen-y-bont. Teras cynnar llawn cymeriad (yn hytrach na'r annedd oedd yn sefyll ar ei ben ei hun) o'r 18fed ganrif. Y tu ôl mae golchdy, sy'n adlewyrchu'r datblygiad mewnlenwi o fewn ffiniau'r llain.

- 5.2.7 Gan barhau i lawr Heol-y-Bont, mae cymysgedd o adeiladau'n nodweddu gogledd y stryd, gyda'r rhes o ddiwedd yr 18fed ganrif (c.1773) y Stag Inn, bellach mewn rendr modern, a 2-3 Heol-y-Bont. Mae'r gyfres o dai dormer bychan yn neilltuol. Ar dro'r gornel i Plas Isamae adeilad tri llawr sylweddol (rhannol Bwthyn-y-Gof) mewn ashlar manwl. Nesaf ato mae Plas Isaf, tŷ mawr sy'n berchen i Ystad Nannau, a ailadeiladwyd yn y 19eg ganrif ac sydd wedi'i ymgorffori yn y Golden Lion drws nesaf.
- 5.2.8 Mae'r Royal Golden Lion yn adeilad cain, a ailadeiladwyd gan Robert Vaughan yn 1839. Mae'n anarferol, gyda thalcenni bargodol (gyda bondo pediment dwfn nodweddiadol) mewn ashlar mwy garw na'r darn canolog cilfachog a bwaog. Mae'n bosibl fod y talcenni wedi'u rendro neu eu gwyngalchu yn wreiddiol. Ar hyn o bryd, mae ei osodiad mewn cyferbyniad â Lion Street, gofod diddorol sy'n edrych dros yr eglwys a iard y Lion, wedi'i ddifetha gan barcio a rhyw deimlad 'cefn y tŷ'. Gyferbyn mae tai allan modern y Royal Ship.
- 5.2.9 Ar hyd Lion Street, un o'r ychydig adeiladau brics yn y dref yw'r Tŷ Bwyta Da erbyn hyn. Mae'r adeilad 3 llawr sylweddol hwn wedi cadw'r manylion gwreiddiol fel arall ond mae ganddo awyru hyll i'r cefn (yr ymddengys ei fod mewn llechen grog) yn edrych dros y fynwent.
- 5.2.10 Mae Plas Isaa Heol-y-Bont yn cyfarfod yn Llys Owain. Mae'r Royal Ship yn wynebu'r sgwâr o'r gogledd, Y Sospan Fach i'r dwyrain, sy'n adeilad hardd, newydd wedi atgyweirio, gyda cryn dipyn o adeiladwaith o'r 17eg ganrif ar ôl. Mae perthynas a graddfa'r ddau adeilad yn dangos y newid yn y dref yn y 18fed a'r 19eg ganrif.
- 5.2.11 I'r dwyrain y mae TH Roberts (Parliament House), adeilad uchelgeisiol wedi'i gadw'n dda. Hen Haearnwerthwr (caffi erbyn hyn) sydd wedi cadw llawer o fanylion gwreiddiol y tu mewn. Dyma hefyd hen safle Plas-y-Dre (ffig 9).
- 5.2.12 Saif Tŷ Meirion (yr hen Ganolfan Croeso), adeilad tri llawr sylweddol o ddechrau'r 19eg ganrif, ar ei ben ei hun rhwng Llys Owain a'r Stryd Fawr (Eldon Square). Ymddengys nad yw'r adeilad amlwg hwn yn cael ei ddefnyddio ac mae gwaith trwsioarno.



29 Aliniad Ffos y Felin a Phen y Bont (2022).



30 Parcio yn amharu ar osodiad y y Royal Golden Lion (2022).

- 5.2.13 Mae Eldon Row bellach yn rhes ar ochr orllewinol y sgwâr, yn mynd at Neuadd Idris. Mae hon yn rhes arbennig o gain, mewn haenau o rwbel sgwarog, sy'n adlewyrchu uchelgais Robert Vaughan o Nannau.
- 5.2.14 Neuadd Idris (bellach Tŷ Siamas) yw hen Neuadd y Farchnad²². Fe'i hadeiladwyd yn 1870 gydag ystafelloedd cynnull uwchben, ac yn wreiddiol roedd ar agor i'r llawr gwaelod. O waith maen llanw, gydag arcêd (marchnad agored yn wreiddiol mae'n debyg) bellach wedi'i lenwi'n rhannol. Mae'r grisiau a roddwyd yn y gornel dde-ddwyreiniol yn annymunol ac mae'n ymddangos mai modern yw ffenestri'r llawr cyntaf.
- 5.2.15 Gyferbyn, Central buildings, yn wreiddiol *The Royal Welsh Woollen Warehouse* gyda gofod manwerthu ar y llawr gwaelod. Adeilad 4 llawr Eidalaid o ddiwedd y 19eg ganrif mewn cyflwr da, mae ansawdd arbennig i flaen y siop, addurn y ffenestri a'r balconi sy'n estyn allan. Nesaf ato mae adeilad clasurol HSBC yn dyddio o 1924, ac eto'n cadw lefel uchel o fanylion gwreiddiol y tu allan. Mae'r ddau wedi'u rhestru.
- 5.2.16 Codwyd Crosby Buildings yn 1881 (gan W Jones o Ddolgellau), grŵp unedig gyda ffenestri bae dros gornisiau y blaen siop sy'n bargodi, yn ysgubo o amgylch i Porth Marchnad.
- 5.2.17 Mae'r rhes amrywiol ar ogledd Porth Marchnad yn gorffen mewn adeilad deulawr gyda ffasâd grom yn gorffen mewn talcen. Mae'n anarferol iawn ac yn llawn cymeriad, wrth lynu at ffiniau'r llain cynnar. (gweler Ffig 32).
- 5.2.18 Rhwng y rhes hon ac Wtra'r Felin ceir teimlad o batrwm datblygu dwys gydag aliau cul. I'r gogledd o Wtra'r Felin, mae gwesty'r Torrent Walk yn nodi'r pwynt lle mae rhesymoli'r 19eg ganrif yn cyfarfod yr adeiladau cynharach, y gogwydd ar wyneb dwyreiniol yr adeilad a'r newid mewn deunydd o rwbel i ashlar lled-haenog llanw.
- 5.2.19 Mae Wtra'r Felin yn stryd llawn cymeriad. Datblygwyd Froden House uchel (Ffig 33) dim ond dau lawr yn wreiddiol, gyda llofft wehyddu ac mae'r drysau llwytho a'r canopi yno o hyd. Y tu hwnt mae'r Cross Keys Inn llawer is, wedi'i wyngalchu a ffenestri dormer yn yr arddull ddomestig gynnar, ac mae'r berthynas hon mewn graddfa yn nodweddiadol o'r dref. Yn wynebu cefn Central Buildings mae'r Llyfrgell Rydd (1911 gan Edmund A Fermaud



31 Eldon Row a Neuadd Idris (Tŷ Siamas), 2022.



32 Diwedd y rhes ar Porth Marchnad, sylwer ar gromen yr wyneb i'r talcen a ffurf neilltuol y tu sy'n deillio o hyn. (2022).

²²<https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4963>

of London) a adferwyd yn ddiweddar. Mae'r gwaith diweddar yn cynnwys adfer yr arysgrif Cymraeg gwreiddiol ar yr wyneb.

- 5.2.20 Strydoedd y 19g ganrif sy'n cysylltu'r sgwariau â Ffos-y-Felin. Ar gornel Heol Plas-y-n-Dre, mae siop Spar wedi cael cartref mewn hen gapel. Nesaf ati mae clinig Plas-y-n-Dre, adeilad unllawr gyda fframiau a tho slip nodedig.

Ardal Cymeriad 2 – O Gwmpas Y Lawnt

- 5.2.21 Mae'r ardal sy'n mynd o'r Lawnt i Eglwys y Santes Fair hefyd yn rhan o'r dref gynnar, gyda datblygiad nodweddiadol o amgylch ffiniau'r llain.
- 5.2.22 Yn anarferol i Gymru, mae'r eglwys yn gyfan gwbl o'r cyfnod Sioraidd cynnar. Mae'r corff (a gwblhawyd yn 1723) gyda'i ffenestri bwaog mawr a gwydr da'r cyfnod yn seiliedig ar gynllun yr eglwys yn yr Eglwys Wen, Sir Amwythig, ond gyda chymeriad unigryw hefyd yn sgil defnyddio'r garreg leol a heriau gweithio'r deunydd. Mae gan y fynedfa i'r eglwys golofnau bwrw o Coalbrookdale (1881) gyda waliau crwm cain (mewn dolerit gyda meini copa tywodfaen).
- 5.2.23 Mae bythynnod pictwresg iard y Lion (gweler Ffig 17), wedi'u codi â mynediad grisiog (yn gyfan gyda fframiau a manylion), wedi'u cyfuno â'r Golden Lion, golygfeydd o'r eglwys a'r lledu nodweddiadol yn y ffordd yn creu gofod hardd, er bod parcio ac arwynebau gwael yn ei ddifetha i raddau.
- 5.2.24 Mae Ffordd-y-Marian yn rhedeg ar hyd ffin orllewinol y fynwent. Gyferbyn mae Tan-y-Fynwent, tŷ sylweddol o ddiwedd y 17eg/dechrau'r 18fed ganrif gyda dormeri clasurol a charreg rwbel. Mae ganddo gyntedd dellt prydferth o ddechrau'r 19eg ganrif mae'n debyg.²³ Mae cyffordd Ffordd-y-Marian a Stryd Lombard yn gymysgedd arall o onglau hynod. Mae gan Rif 1 Ffordd-y-Marian (gynt y Crown Inn) flaen siop cynnar hardd iawn. Ymhellach ar hyd y teras mae gan rai tai ffenestri newydd.
- 5.2.25 Nesaf at Blas Brith o'r 20fed Ganrif (adeilad o'r cyfnod mewn cyflwr da), mae'r teras yn rhedeg yn unionlin (gweler Ffig 16), adlewyrchiad o ddwysedd y datblygiad, sydd dal yn amlwg ar fapiau diwedd y 19eg ganrif. Y tu hwnt, mae'r hen fanc, sy'n anarferol o ddomestig gyda ffenestr risiau dal, yn cyfuno mewn rwbel sylweddol olwg ffasedog sydd eto'n creu gofod lletach llawn cymeriad.

²³ Haslam, R., Orbach, J. and Voelcker, A. *The Buildings of Wales: Gwynedd*, p.593.



33Forden House, Wtra'r Felin (2022).



34Tan-y-Fynwent. (2021).

- 5.2.26 Mae'r Lawnt yn lledu ond mae mapiau cynnar yn dangos datblygiad dwys i'r de, wedi'i ddymchwel yn rhannol. Fan hyn bellach mae tirweddu sylfaenola pharcio.
- 5.2.27 I'r de o'r Lawnt mae'r orsaf heddlu hardd, gyda ffenestri bwaog, cornis ac addurniadau. Y tu ôl mae'r bloc celloedd modern, gydag iard agored. Gyferbyn mae teras da (1-6 Y Lawnt), y rhan fwyaf â ffenestri codi.
- 5.2.28 Mae tri bloc o ansawdd gwael o dai cyngor yr 1960au yn edrych dros y Lawnt, mae'r ffensio a'r tirweddu yn effeithio'n andwyol ar yr ardal gadwraeth. I'r de-orllewin o'r blociau hyn mae ardal fechan, hen safle'r ysgol ramadeg. Mae carreg yn y wal yn dynodi 'Grammar School Repaired 1852'.
- 5.2.29 Caiff cymeriad y Lawnt ei ddiffinio gan y topograffi sy'n codi tuag at Ffordd Cader Idris, gyda Than-y-Bryn ar lefel ganolog (c.1830 o gerrig mawr, gyda fframiau mawr) a Phenbryn yn cefnu ar Ffordd Cader Idris. Roedd Penbryn wedi'i fordio'n rhannol adeg yr arolwg ac wedi'i bwyntio'n wael mewn sment ar ochr Ffordd Cader Idris.
- 5.2.30 O Blas Brith i Ffordd Cader Idris mae Pant Y Pistyll. Stryd llawn cymeriad, sy'n cyfuno olion diwydiant yn cynnwys Melin Cambrian (sydd â ffenestri modern bellach) a gweithdai is ger Plas Brith. Mae'r teras ar gornel Pant Y Pistyll mewn cyflwr da a'r talcen yn arbennig o amlwg, mae pen y teras o garreg lai ac yn ymddangos yn hŷn na'r gweddill. I'r dwyrain o'r teras mae Cambrian House (bellach bwyty'r 'Lemon Grass') ar lain o ynys, mae gan yr adeilad hwn ffenestri modern yn bennaf a phwyntio gwael. Ymhellach i'r dwyrain, mae Richmond House yn adeilad neilltuol iawn, gyda ffenestri lletraws anarferol o fewn bae carreg ar lefel y llawr isaf a manylion carreg o ansawdd uchel.
- 5.2.31 Mae Heol-y-Capel yn troi i ffwrdd o Ffordd Cader Idris i gwrdd â'r Lawnt. Mae Capel Tabernacl (1868) yn gymysgedd rhyfedd o arddulliau, ond yn gwneud grŵp diddorol gyda'r terasau cyfagos â'u cynteddau grisiog a dellt prydferth a gyferbyn ag adeilad y Mawddach Wholefood Co-Operative. Mae'r adeilad (rhestredig) hwn o ganol y 18fed ganrif ond mae angen ei atgyweirio. Nesaf ato mae'r hen gapel annibynwyr, bellach yn ddeintyddfa.

Ardal Cymeriad 3, Yr Ardal Ddeheuol

- 5.2.32 I'r dwyrain o'r Stryd Fawr, mae Felin Isaf (Smithfield Square). Yn y blaen mae'r hen garchar, wedi'i ailadeiladu gryn dipyn ac erbyn hyn bwyty a



35Heol-y-Capel (2022).



36Teras ar gornel Pant Y Pistyll, Noder ffurf anarferol y gafael.(2021).

gwesty Y Meirionnydd²⁴. Nesaf ato mae'r Unicorn, adeilad sy'n cynnwys deunyddiau o'r 17eg ganrif, er iddo gael ei ailadeiladu'n rhannol o gwmpas 1800. Mae'r casgliad syn cynnwys yr Unicorn yn ymestyn i gwrdd â Plas Coch ar Wtra Plas Coch. Dyma adeilad arall sy'n cynnwys adeiladwaith o'r 17eg ganrif wedi'i addasu ar ddechrau'r 19eg ganrif, rwbel garw gyda fframiau.

- 5.2.33 I'r gogledd-ddwyrain o'r Meirionnydd mae teras tri llawr o ganol y 19eg ganrif, gyda bwâu at lawr gwaelod y pen dwyreiniol (yn hwyrach mae'n siŵr). Mae'r rhes hon wedi'i rhestru gyfan gwbl ac eithrio'r adeilad nesaf at y gwesty (sydd â ffenestri uPVC).
- 5.2.34 I'r gogledd-ddwyrain o Afon Aran mae teras o dai o ddiwedd y 19eg ganrif, pob un wedi'u newid yn fawr gyda dormeri fflat a ffenestri modern (ac eithrio rhif 1)
- 5.2.35 Yn wynebu ar y Stryd Fawr, mae Plas Newydd ar flaen bloc sy'n cadw llawer o gymeriad cynnar y dref, gydag adeilad dwys o fewn llain afreolaidd. Mae Plas Newydd yn adeilad hardd, yn rhannol o'r 17eg ganrif, gyda'r ffryntiad diweddarach sydd bellach yn wynebu'r sgwâr. Mae'r bloc yn troi'r cornel i mewn i Heol Feurig, a chymysgedd y graddfeydd adeiladu yn rhoi cymeriad pendant iawn, gan offen gyda Thŷ Seren 4 llawr. Yma byddai gwyddiau nyddu ar y lloriau uchaf (a thrawst codi gyda drws mynediad i'r llawr top). Mae hefyd siop o'r 19eg ganrif sydd yn ddiweddarach ond o ansawdd da, gyda chrib haearn.
- 5.2.36 Mae cymeriad ardderchog i Heol Feurig, mae'n amrywio mewn lled gydag adeiladau o wahanol arddulliau a chyfnodau. Mae'r capel Ebeneser (nesaf at TŷSeren) sylweddol o tua 1800 ac mae'n un o gynlluniau Richard Davies. Mae'r blaen yn wynebu sgwâr bychan, a grëwyd gan ongl y bloc y cyfeiriwyd ato uchod. Gyferbyn mae Fro Awel, adeilad domestig cynnar da (o'r math a fyddai wedi nodweddu'r dref yn y 18fed ganrif) ac eglwys Gatholig Ein Morwyn o'r Saith Gofid. Mae'r adeilad hwn yn gynllun neilltuol, ond traddodiadol, o'r 1960au.
- 5.2.37 Ymhellach i'r de mae'r stryd yn ysgubo ac yn lledu gyda thŷ gwerinol arall, Cemlyn a'i gymydog regentaidd talach, Tŷ Meurig, wedi'i osod yn ôl, eto mae'r amrywiad mewn graddfa yn bwysig i gymeriad y stryd.

²⁴<https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=5070>



37 Tŷ Seren, noder y trawst codi (2022).



38 Tan-y-Gader (2022).

- 5.2.38 Mae'n anffodus fod gan Garn View sy'n dod â'r olygfa i ben, ffenestriPVC a'i fod wedi'i orffen mewn paent modern. (gweler Ffig 58)
- 5.2.39 Y tu hwnt mae'r ffordd yn lledu eto gan greu gofod o ansawdd uchel gyda wyneb a manylion da o flaen tŷ Sioraidd tri llawr trawiadol Tan-y-Gader. Nesaf ato mae plot gwag, ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio fel lle parcio anffurfiol.
- 5.2.40 Mae Heol Feurig yn ymuno â'r Domen Fawr a Heol Plas Uchaf, ac eto mae'r ffordd yn lledu gyda rhes dda o'r 19eg ganrif, Frondeg, gyferbyn.
- 5.2.41 Ar ochr y ffordd yma mae tai teras o ganol y 19eg ganrif, y rhan fwyaf â ffenestri modern, wedi'u hatalnodi i'r dwyrain gan ddatblygiad modern Ffordd Sarn a Hen Felin. Mae hyn yn arwain at lain a thirweddau anffodus i'r gogledd o dŷ Regentaidd da Glanafon, sydd â chysgod talcen mewn brics modern ar ei ochr ogleddol.
- 5.2.42 Y tu hwnt y mae'r ardal o amgylch Maes-y-Pandy, sy'n neilltuol iawn gyda'r teimlad o rywfaent o ddiwydiant cynnar, fel arfer o raddfa lai. Dau gapel, Hen Dŷ Wesle gwreiddiol 1806 i'r gorllewin (yn anffodus wedi'i altro'n ddirfawr gyda ffenestri modern) a gyferbyn capel bach Pendref o 1905, wedi'i gadw'n dda, gyda blaengwrt bach a rheilin o'i amgylch.
- 5.2.43 Ymddengys fod y ffordd wedi cael ei lledu a'i hail-alinio i'r gorllewin o Faes-y-Pandy, mae'n debyg er mwyn gadael i gerbydau fynd drosti – arweiniodd hyn at ddymchwel adeiladau mewn bloc dwys fel y gwelir ar fapiau ar ddiwedd y 19eg ganrif (gweler Ffig 39), er bod gweddillion un o'r 'cyrtiau' yn goroesi yn gyflin â'r ffordd.
- 5.2.44 Ar hyd Maes-y-Pandy mae rhes llawn cymeriad o dai teras o ddechrau'r 19eg ganrif, yn gwyro i ddilyn yr afon. Gyferbyn, bob ochr i'r bont droed, mae'r hen adeiladau diwydiannol newydd gael eu hatgweirio. Roedd datblygu ar lain gwag wedi'i gwblhau'n rhannol ar adeg yr arolwg.
- 5.2.45 Ychydig ymhellach i'r de, wrth i'r tir godi, mae Glan Arran a bythynnod Glan Arran, grŵp gwerth chwil gyda'r tŷ o ddechrau'r 19eg ganrif a'r bythynnod dipyn is nesaf ato, ar hyn o bryd ond ychydig y tu allan i ffin yr ardal gadwraeth.
- 5.2.46 I'r gorllewin o Faes-y-Pandy, mae ardal o dir amaethyddol pwysig nas datblygwyd. Mae tŷ rhestredig sylweddol Fron Arran, c1830, wedi'i godi ar y bryn, gyda golygfeydd yn ôl i'r dref. Ymhellach i'r gorllewin mae Pen-y-bryn,



39Darn o fap AO 1888, yn dangos datblygiad dwys i Faes-y-Pandy.



40Maes-y-Pandy (2022)

tŷ da o'r 19eg ganrif (heb ei restru!), gyda ffermdy cynharach, o bosibl o'r 17eg neu'r 18fed ganrif, y tu ôl (bellach â tho haearn rhychog).

- 5.2.47 Ymehellach i'r dwyrain ar Dylau Mair, mae Pen Brynbella (gweler Ffig 21) yn ffermdy cynharach, o'r 18fed ganrif, o gymeriad gwledig pendant. Nid yw rhan uchaf Tylau Mair cystal oherwydd datblygiadau diweddarach o ansawdd gwael.

Ardal Cymeriad 4, Ardal y Tanws.

- 5.2.48 Mae Ffos-y-Felin yn dynodi llinell hen gafn y felin a dyma ymyl dwyreiniol y dref ar ddiwedd y 18fed ganrif. Mae'r unig ddatblygiadau a welir ar fapiau o'r cyfnod o amgylch Pont yr Arran, lle'r oedd tanerdy wedi'i sefydlu erbyn 1820. Arhosodd y diwydiant lledr yn bwysig i'r dref i mewn i'r 20fed ganrif.
- 5.2.49 Mae cymeriad diwydiannol i'r ardal o hyd, tra bod Bwthyn Pont yr Arran yn enghraifft dda o'r arddull wledig oedd yn nodweddiadol o'r ardal cyn diwydianeiddio. Bu cyd-destun diwydiannol i'r bwthyn ers amser maith ond bellach mae wedi'i amgylchynu gan strwythurau 20fed ganrif o ansawdd gwael. Nid yw'n amlwg a yw'r bwthyn wedi'i feddiannu ar hyn o bryd.
- 5.2.50 Mae Ffos-y-Felin yn rhedeg i'r gogledd o Felin Isaf ac i'r dwyrain mae adeiladau diwedd oes Fictoria ar ei hyd. Mae Llys Meirion (arwerthwyr Farmers Marts) yn enghraifft dda o fila Fictoraidd, gyda manylion allanol mewn cyflwr da.
- 5.2.51 Mae adeiladau'r Jiwibili, ar y gyffordd â Heol Glyndwr, yn adeilad modern diddorol o tua 1937. Mae newydd ei atgyweirio ac mae'n gwneud cyferbyniad pwysig o ran ffurf, graddfa a deunyddiau.
- 5.2.52 Mae Neuadd y Dref, a adeiladwyd yn 1825 gan Edward Haycock o'r Amwythig, yn sefyll ar y gyffordd â Heol-y-Bont. Adeilad neilltuol yn arddull Twsgani a oedd yn gartref i'r llys gyda phafiliynau bob ochr yn lletya ystafelloedd cyfiawnder a chelloedd. Bellach mae'n cael ei ddefnyddio fel deintyddfa (2022).²⁵
- 5.2.53 Mae hen dŷ retort gwaith nwy gwreiddiol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (bellach Dogellau Cycles), yn adeilad diwydiannol cynnar pwysig, yn enwedig gyda thŷ bychan y llywodraethwr (de) a'r swyddfeydd brics drws



41 Bwthyn Pont yr Arran a'i gyd-destun diwydiannol. (2022).



42 Ty retort a thy llywodraethwr y Nwydy gynt (ar y dde) (2022)

²⁵ Haslam, R., Orbach, J. and Voelcker, A. *The Buildings of Wales: Gwynedd*, p.589.

nesaf. Mae'r tirweddu yn y blaen o ansawdd gwael a'r tu ôl, mae parcio agored.

- 5.2.54 Ar Gae Tanws Bach (de), mae warws bach ac adeilad amaethyddol yn ymestyn drwodd at Heol Glyndwr. Yma mae'r ffyrntiad o ddiwedd y 19eg ganrif ac mae'n bosibl bod yr adeilad wedi cael ei addasu gydag aliniadau ffordd newydd. Mae'r adeilad yn ymddangos yn rhannol wag i'r gogledd ar adeg yr arolwg.
- 5.2.55 Ailddatblygwyd yr ardaloedd o gwmpas Cae Tanws Bach a Heol Glyndwr ar ddiwedd y 19eg ganrif. Mae terasau o dai yn mynd am y de o Heol Glyndwr, gydag adeiladau diwydiannol yn gefn iddynt, rhai ohonynt yn tarddu o'r 19eg ganrif ac yn rhoi cymeriad nodedig i'r ardal. Oddi ar Cae Tanws Bach, mae cwrt bychan o dai yn mynd am y gogledd, rhan o hen ffatri brintio.

Ardal Cymeriad 5, Yr Ardal Orllewinol

- 5.2.56 Mae'r tir yn codi'n serth i'r de a'r gorllewin o Dylau Mair i fyny i Ffordd Bodlondeb. Nodweddir yr ardal i'r de o Ffordd Cader Idris gan filâu mawr, a ddatblygwyd o'r 1830au, gyda gerddi wedi'u tirlunio.
- 5.2.57 Mae'r adeiladu ar hyd Ffordd Cader Idris yn llinelllog hefyd ac yn gyffredinol o'r 19eg ganrif, er i Capel Salem gael ei ddatblygu gyntaf yn 1766.
- 5.2.58 Mae Bryn Mair a Brynbella yn enghreifftiau da o gyfnod cynharach adeiladu filâu yn null cynnil diwedd cyfnod y Rhaglywiaeth. Mae gan Bryn Mair set arbennig o gain o bileri giât carreg. Mae gan Ffynnon, gerllaw, bileri a gatiau bwrw. Ymhellach i'r dwyrain, mae Brynhyfryd sylweddol (gweler Ffig 44), wedi'i osod uwchlaw Ffordd Tywyn, yn fila hardd o tua 1840, gyda stablau i'r dwyrain.
- 5.2.59 Ar hyd Ffordd Cader Idris, rhwng Tylau Mair a Bryn Teg, mae Bryn House yn dŷ braf, rhestredig o ddechrau'r 19eg ganrif, gyda stablau a choetsiws debyg²⁶ (er bod y rhain yn edrych fwy fel melin neu weithdy tecstilau). Atgyweiriwyd y tŷ yn ddiweddar ond mae'r stablau a'r coetsiws mewn cyflwr gwael. Mae gan yr adeilad ardd â wal o'i chwmpas i'r cefn.
- 5.2.60 Y tu hwnt i Dylau Mair mae pâr o dai tri llawr o ddechrau'r 19eg ganrif (Erw-Wen) sydd â ffenestri bae diweddarach, o ansawdd uchel. Mae'r ddau newydd gael eu hatgyweirio. Ymhellach i'r gorllewin mae adeilad mawr Capel Salem (MC), wedi'i osod uwchben y ffordd. Mae'r adeilad tua 1893-4

²⁶ <https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4945>



43Warws, Cae Tanws Bach. (2022).



44Brynhyfryd. (2022).

eto gan Richard Davies yn rhannol dash ac yn rhannol stwco wedi'i beintio ac mae'n gyfansoddiad trawiadol gyda rheilin a physt da. I'r gorllewin eto mae tolldy gyda'r ffenestr a'r postyn giât (yn anffodus mae'r ffenestri eraill yn fodern).

- 5.2.61 Y tu ôl i Gapel Salem, mae gan yr adeilad a elwir hen dŷ'r ysgol, ffenestri grŵp i'r llawr uchaf, sy'n awgrymu y bu unwaith yn siop wehyddu.
- 5.2.62 Uwchben, mae Ffordd Bodlondeb yn gyffredinol yn fwy gwledig ei nawys (gweler 4.3) gyda choetir islaw'r ffodd, uwchben Ffynnon Fair. Mae rhes dda o dai o'r 19eg ganrif yn edrych dros y dref yn 1-4 Ffordd Bodlondeb, ychydig yn is na'r ffordd. Mae 2 a 3 wedi cadw'r ffenestri codi gwreiddiol a manylion eraill.

5.3 Deunyddiau a Manylion

- 5.3.1 Nodweddir Dolgellau gan garreg. Mae'r defnydd o ddolerit yn arbennig o amlwg, ond roedd cerrig eraill yn cael eu cloddio'n lleol yn cynnwys gwahanol lechi, un ohonynt yn cael ei defnyddio'n aml i linteli. Roedd adeiladau cynt neu o statws is yn defnyddio rwbél di-haen, adeiladau o statws uwch yn defnyddio rwbél mewn sgwariau bras (yn aml dim ond yn y tu blaen), gyda cherrig rhwng y llefydd lle'r oedd hi'n anodd gweithio'r blociau. Mae cynnwys haearn gweddilliol (o wahanu haenau cerrig llaid) yn rhoi lliw rhwd i'r garreg. Mae'r amrywiad mewn lliw yn nodweddiadol iawn o'r dref.
- 5.3.2 Yn ddiweddarach, dechreuodd adeiladau statws uchel ddefnyddio ashlar mwy cain, yn enwedig i'r prif olygon. Mae'r Golden Lion yn defnyddio ashlar a blociau sgwâr sy'n creu effaith arbennig.
- 5.3.3 Ym mlynnyddoedd diweddarach y 19eg ganrif, newidiodd y ffordd o weithio'r garreg, a gwelwn lawer o waith maen llanw yn cyrraedd, gyda'r defnydd o wahanol gerrig, yn enwedig gwenithfaen a llechi oedd yn fwy cytbwys eu golwg, y rhain wedi dod ar y rheilffordd mae'n debyg.
- 5.3.4 Mae'n debyg y byddai'r adeiladau cynnar wedi cael gwyngalch neu rendr tenau. Mae'r ymddangosiad hwn bron wedi diflannu'n llwyr ar wahân i rai enghreifftiau fel y Cross Keys. Ymddengys y byddai hyn wedi bod yn ymateb bwriadol i'r canfyddiad o'r dref fel lle carreg a 'thref wyliau' fynyddig.



45 1-4 Bodlondeb gyda thŷ newydd yn cael ei adeiladu drws nesaf (2022)



46 Cerrig mawr bras, nodir y cerrig man rhwng y blociau mawr, tebyg i arddull 'galletting' 49 Wyneb cobl o flaen Fro Awel, Heol Feurig, (2022)

- 5.3.5 Yn wahanol i'r Bala, ni ddaeth dyfodiad y rheilffordd â fawr ddim brics neu derracota o Riwabon, sy'n dangos efallai ddelwedd fwriadus y dref.
- 5.3.6 Roedd llechi'n cael eu cloddio'n lleol yn cynnwys, o'r 18fed ganrif, ym Mhenrhyngwyn (Chwarel y Goron)²⁷. Yn wreiddiol, defnyddid llechi lleol mewn haenau gostyngol. Gwelir hyn o hyd mewn nifer fach o adeiladau, yn cynnwys yr Unicorn, Y Sospan Fach a Bwthyn Pont yr Arran. O ganlyniad mae'r rhain yn bwysig iawn. Yn gyffredinol mae'r toeau bellach wedi'u gwneud o lechi teneuach, mwy, wedi'u torri â pheiriant o Benrhyn neu Ffestiniog.
- 5.3.7 Mae manylion fel llechi cafn (h.y. dim plwm) bron wedi diflannu ond dylid eu trysori a'u trwsio lle maent yn bodoli. Maent newydd gael eu hadfer yn Y Sospan Fach.
- 5.3.8 Mae gan Ddolgellau doeau amrywiol a diddorol, mae gwahanol uchder onglau'r adeiladau (sy'n gysylltiedig â'r ffiniau llain a dwyster y datblygiad) yn bwysig, ond yn allweddol mae'r raddfa a nifer y simneiau. Mae cadw, trwsio ac adfer simneiau yn hollbwysig i gymeriad yr ardal gadwraeth. Mae gan y simneiau hefyd hindreuliadau carreg risiog yn estyn allan (yn lle plwm) uwchben llinell y to, ac mae hyn yn nodweddiadol.
- 5.3.9 Mae ansawdd y ffenestri yn y dref yn hanfodol i'w chymeriad arbennig. Ffenestri codi sydd yn Nolgellau yn bennaf, llawer ohonynt yno o hyd a hefyd cryn dipyn o wydr hanesyddol. Mae rhaglen dreftadaeth treflun Dolgellau wedi gwneud cryn gynnydd i sicrhau adfer a chadw'r manylion allweddol, ond mae diffyg gwarchodaeth statudol (drwy gyfarwyddiadau erthygl 4) yn golygu fod goresgyniad uPVC a manylion eraill anaddas yn parhau.
- 5.3.10 Cymharol brin yw pren addurnol, ac eithrio ar rai o filâu diwedd y 19eg ganrif (megis Bryntirion ar Dylau Mair). Mae bargodion ymestynol syml yn nodwedd o adeiladau diwedd y 18fed a dechrau'r 19eg ganrif. Mae rhai blaenau siop da yn aros hefyd, 1 Ffordd-y-Marian (enghraifft o ddechrau'r 19eg ganrif), Tŷ Seren a TH Roberts ymhlith eraill. Mae'r pren wedi'i beintio bron yn ddi-eithriad, ac ychydig o bren wedi cwyrto neu staenio a welir.

5.4 Ffiniau

²⁷Richards, A.J. (2007), *Gazetteer of Slate Quarrying in Wales*, p.230



47Llechi wedi'u gosod mewn haenau gostyngol, Bwthyn yr Arran. (2022).



48Drws a chas drws, Maes-y-Pandy. (2022).

- 5.4.1 Caiff y ffiniau eu nodi'n bennaf drwy waliau carreg. Ar ymylon y dref mae'r rhain yn fwy gwledig eu naws, gyda wal gerrig sych i Ffordd Bodlondeb, y mwsogl a'r cen yn ychwanegu at ei chymeriad.
- 5.4.2 Yn y dref mae dwysedd yr adeiladu yn golygu fod yr adeiladu gan amlaf yn agor ar y stryd neu mae ganddynt le bach yn y blaen. Mae eithriadau'n cynnwys y datblygiadau diweddarach ar hyd Ffordd Cader Idris a Heol Plas Uchaf a chwrt blaen Ivy House.
- 5.4.3 Erys enghreifftiau o waith haearn o'r 19eg ganrif ar ffiniau, yn aml yn gysylltiedig ag adeiladau crefyddol. Enghreifftiau pwysig sy'n gyfan yw gatiau Coalbrookdale a cholofnau Eglwys y Santes Fair, rheilin gyda waliau a cholofnau Capel Salem a Chapel Ebeneser, gatiau a phileri bwrw i Ffynnon (ar Tylau Mair), Bryngwyn a Chaer Ffynnon (Heol Plas Uchaf).

5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill


- 5.5.1 Mae rhai ardaloedd da o hen arwynebau'n aros yn y dref (er bod y tarmac yn andwyol yn gyffredinol). Gellir gweld cerrig crynion, yn enwedig ar Heol Feurig y tu allan i Fro Awel, Cemlyn a Thŷ Meurig yn ogystal ag o flaen y Ship ar Llys Owain.
- 5.5.2 Mae arwynebau diweddarach yn cynnwys palmantydd sgwarog patrwm diemwnt glas fel y gwelir ar Plas Isaa nesaf at Plas Newydd.



49 Cobbled surfacing outside Fro Awel, Heol Feurig. (2022).



50 Wal garreg, Ffordd Bodlondeb. (2022).



Adeiladau Rhostredig
1:4000 ar A4

6.0 Asedau Hanesyddol

6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

Ceir yr asedau hanesyddol dynodedig canlynol (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig) yn yr ardal gadwraeth:

6.1.1 Adeiladau Rhestredig

- 5042 *Bragdy*
- 4919 *Rhif 2 Ffordd Aran*
- 5020 *1 a 2 Marianfa (neu dim ond Marianfa)*
- 5074 *Aber Cafe*
- 5054 *Aran Dale*
- 5092 *Arran View*
- 4931 *Beechwood House*
- 5069 *Bennar House*
- 4981 *Bod Alaw*
- 5057 *Bodfan, I Gefn R & G Wynne Williams*
- 4921 *Brethyn*
- 4928 *Pen-y-bont*
- 4929 *Pen-y-bont*
- 4930 *Pen-y-bont*
- 4936 *British Red Cross Society*
- 5068 *Bro Arran*
- 5083 *Bronant*
- 4978 *Bryn Gwynedd*
- 4943 *Bryn House*
- 5024 *Bryn Mair*
- 5028 *Brynbella*
- 4954 *Brynhyfryd*
- 4996 *Capel Tabernacl (Annibynwyr)*
- 5051 *Bar Seler Gwesty'r Torrent Walk*
- 5039 *Cemlyn Cottage*
- 5038 *Cemlyn House*
- 4971 *Central Buildings*
- 5063 *Gatiau'r Fynwent a Rheilin Eglwys y Santes Fair*
- 5070 *Gwesty Clifton House*
- 5097 *Coetsiws ym Mhenlan*
- 4945 *Coetsiws Bryn House*
- 5025 *Coetsiws Bryn Mair*
- 5035 *Cosy Takeaway Fish & Chips*
- 4988 *Bwthyn nesaf at Lety Gweision Plas Gwyn*



52TH Roberts o Lys Owain 2022.



53Capel Salem, Ffordd Cader Idris (2022).

- 5073 *Neuadd y Sir*
- 5090 *Adeilad Adfeiliedig yng Nghefn Mill View*
- 5088 *Tŷ Adfeiliedig yng Nghefn Mill View*
- 5089 *Tŷ Adfeiliedig yng Nghefn Mill View*
- 5118 *Dilys Meredith*
- 5021 *Dolwyn Terrace*
- 4926 *Sied Wair yn Llwyn*
- 5037 *Capel Methodist Ebeneser*
- 4964 *Eldon Row*
- 4965 *Eldon Row*
- 4966 *Eldon Row*
- 4967 *Eldon Row*
- 4968 *Eldon Row*
- 4969 *Eldon Row*
- 4976 *Eric Edwards, Pensaer*
- 4946 *Erw-Wen*
- 5027 *Ffynnon Fair*
- 5052 *Forden House*
- 4993 *Hen Fasnachwyr Amaethyddol*
- 5004 *Hen Orsaf yr Heddlu*
- 4951 *Hen Ysgoldy Capel Salem*
- 4985 *Hen Siop ar y Gornel â Springfield Sreet*
- 5098 *Hen Weithdy*
- 5099 *Hen Weithdy*
- 4940 *Francesca, Studio One*
- 5049 *Fro Awel*
- 5080 *Fron Arran*
- 5023 *Pileri Giât a Waliau ar y Fynedfa i Fryn Mair*
- 5022 *Gatiau i Brynffynnon*
- 5014 *Gladstone House*
- 5095 *Glanafon*
- 5017 *Glanwnion Cottage*
- 5167 *Glyn Malden*
- 4939 *Glyndwr Milk Bar*
- 5013 *Gwesty'r Golden Lion*
- 5076 *Tŷ Llywodraethwr yr Hen Waith Nwy*
- 4952 *Gwelfryn*
- 4977 *Heulwen*
- 4947 *Tŷ nesaf at Erw-Wen i'r Chwith*
- 4974 *Tŷ nesaf at Chwith Ivy House*
- 4986 *Tŷ nesaf at Dde yr Hen Siop ar y Gornel â Springfield Street*
- 4991 *Isfryn Cottage*
- 4990 *Isfryn House*
- 5067 *Islawr*

- 4973 *Ivy House*
- 4984 *J.P.William Jones, Bookmakers*
- 4975 *J.V.Morgan & Son*
- 5016 *Llety Clyd*
- 4922 *Lloyd, Herbert & Jones, Estate Agents*
- 4923 *Lloyd, Herbert & Jones, Estate Agents*
- 5166 *Llyndir*
- 5041 *Llys Meurig*
- 5015 *Llys Y Delyn*
- 4970 *Tŷ Meirion (Yn ddiweddar Banc Barclays)*
- 4983 *Maesgwyn*
- 5046 *Marylands*
- 5050 *Mervinian House*
- 4972 *Banc y Midland*
- 5087 *Mill View*
- 5012 *National Milk Bar*
- 4963 *Neuadd Idris (hen Neuadd y Farchnad)*
- 4938 *Newsagents*
- 4994 *Nigel J. Elson, Roofing Repairs*
- 4918 *Rhif 1 Ffordd Aran*
- 5010 *Rhif 1 Lion Street*
- 5008 *Rhif 1 Lion Yard*
- 5030 *Rhif 1 Ffordd-y-Marian*
- 5121 *Rhif 1 Waterloo Street*
- 4998 *Rhif 1 Y Lawnt*
- 4934 *Rhif 2Stryd y Bont*
- 5011 *Rhif 2 Lion Street*
- 5009 *Rhif 2 Lion Yard*
- 5031 *Rhif 2Ffordd-y-Marian*
- 5081 *Rhif 2Maes y Pandy*
- 4999 *Rhif 2 Y Lawnt*
- 4920 *Rhif 3Ffordd Aran*
- 4935 *Rhif 3Stryd y Bont*
- 5082 *Rhif 3Maes y Pandy*
- 5000 *Rhif 3 Y Lawnt*
- 4979 *Rhif 4 Finsbury Square*
- 5001 *Rhif 4 Y Lawnt*
- 4980 *Rhif 5 Finsbury Square*
- 5086 *Rhif 5Maes y Pandy*
- 5002 *Rhif 5 Y Lawnt*
- 5003 *Rhif 6 Y Lawnt*
- 5032 *Rhif 8Ffordd-y-Marian*
- 5091 *Rhif 8Maes y Pandy*
- 5171 *Hen Fwthyn Yn Penamen House*

- 5061 Yr Hen Lys (Y Sospan Fach)
- 5109 Bythynnodd Pandy'r Odyn
- 5110 Bythynnodd Pandy'r Odyn
- 5112 Bythynnodd Pandy'r Odyn
- 5113 Bythynnodd Pandy'r Odyn
- 5114 Bythynnodd Pandy'r Odyn
- 5084 Pant Awel
- 5064 Eglwys y Santes Fair
- 5029 Pen Brynbella
- 5007 Penbryn Croft
- 5006 Penbryn House
- 5096 Penlan
- 4953 Tolldy Pen-Y-Bryn
- 5062 Blwch Llythyrau
- 5072 Plas Coch
- 4989 Plas Gwyn
- 4959 Plas Newydd (yn awr Dolgelly Jewellers)
- 4958 Plas Newydd (yn awr E.R. & E.M Hughes)
- 4962 Plas Newydd (yn awr Knitwise)
- 4960 Plas Newydd (yn awr Nurses Tv & Radio)
- 4961 Plas Newydd (yn awr Y Cwpwrdd Cornel)
- 5044 Plas Uchaf
- 4917 Pont-Yr-Arran Cottage
- 4995 Adeilad ym meddiant Mawddach Wholefood Co- Operative a
Chyngor Dosbarth Meirionnydd
- 4941 Siop Local Crafts
- 4957 Swyddfa Manweb
- 4982 Siop Raynor Opticians
- 5056 R & G Wynne Williams
- 5085 Llety gweision i gefn Pant Awel
- 87544 Eglwys Gatholig Ein Morwyn o'r Saith Gofid
- 5075 Tŷ Retort yr Hen Waith Nwy (bellach Siop Arddangos Nwy)
- 4992 Rhug
- 5100 Riverside
- 5094 Roslyn
- 5060 Gwesty'r Royal Ship yn cynnwys yr Hen Stablau
- 4948 Capel Methodistiaid Calfinaidd Salem
- 4950 Tŷ Salem
- 4949 Ysgoldy Capel Methodistiaid Calfinaidd Salem
- 5119 Siop Esgidiau
- 5058 Siop Hughes
- 5026 Stable Tables a Loose Box I Bryn Mair
- 4944 Stablau Bryn House
- 4933 Stag Inn

- 5036 *Star House*
- 5102 *Stordy Gyferbyn â Cae Ffynnon*
- 5066 *Sunday Newsagents*
- 5065 *Deial Haul ym Mynwent y Santes Fair*
- 5059 *T.H.Roberts, Haearnwerthwr*
- 5048 *Tan Rhiw*
- 4942 *Tan'r Allt*
- 5005 *Tan-Y-Bryn*
- 5033 *Tan-Y-Fynwent*
- 5047 *Tawelfa*
- 5045 *Tan-Y-Gader*
- 4987 *Blwch Ffôn*
- 5117 *Y Becws*
- 4937 *Siop Cader*
- 5053 *Tafarn y Cross Keys*
- 5018 *Yr Hen Fanc*
- 5019 *Yr Hen Fanc*
- 5071 *Tafarn yr Unicorn*
- 5120 *Thresher's Wine Merchants*
- 5040 *Ty Meurig*
- 5043 *Adeilad Gwasg i'r Chwith o Bragby*
- 4932 *Canolfan Ymwelwyr yn Beechwood House*
- 5101 *Wenallt View*
- 5116 *Y Belen Wlan*
- 5093 *Y Graig*

6.1.2 Dynodiadau Ychwanegol Dichonol.

Ystyrir y dylai'r adeiladau a'r strwythurau canlynol gael eu hystyried i'w gosod ar y rhestr genedlaethol:

- *Stablau Brynhyfryd.*
- *Pen-y-Bryn (Tylau Mair/Heol Feurig)*
- *Y Llyfrgell Rydd ar Wtra'r Felin*
- *Adeiladau Crosby (rhan o werth grŵp cyffredinol Y Stryd Fawr).*
- *Plas Isa (nesaf at yGolden Lion)*
- *Ystod ogleddol y gwaith nwy (ystyried oherwydd gwerth grŵp)*

6.1.3 Mae cyfres o asedau hanesyddol dynodedig arwyddocaol (henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig) o fewn tua 500m i'r ardal gadwraeth:

- 5054 *Aran Dale*
- 4997 *Ysbyty Dolgellau ac Abermaw*
- 5055 *Ysgol Gynradd Dolgellau*
- 5079 *Glan Arran*

- 5077 *Glanarran Cottages*
- 5078 *Glanarran Cottages*
- 4924 *Llwyn*
- 5103 *Maes Caled*
- 5104 *Maes Caled*
- 5105 *Maes Caled*
- 5106 *Maes Caled*
- 5107 *Maes Caled*
- 5034 *Obelisc i Dafydd Ionawr yn yr Hen Fynwent*
- 4925 *Adfail i'r Dwyrain o Llwyn*
- 4927 *Y Bont Fawr*

6.2 Asedau Hanesyddol Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig


Clustnodwyd yr asedau hanesyddol annynodedig canlynol fel rhai o ddiddordeb lleol arbennig(gweler Ffig54):

- *Stablau Brynhyfryd.*
- *Hen Fanc Nat West a'r Tŷ Amaeth (Heol-y-Bont)*
- *Adeiladau yn lard y Lion*
- *Plas Isa (nesaf at y Golden Lion).*
- *Gwyndy, Heol-y-Bont*
- *Swyddfa Guthrie, Jones & Jones, Heol-y-Bont*
- *Crosby Buildings, Y Stryd Fawr*
- *Bryn Eglwys &Parlwr Bach (Y Lawnt).*
- *Adeilad gyferbyn â Bryn Eglwys a Parlwr Bach (gyda'r adeilad brics y tu ôl).*
- *Brynmeurig (Y Lawnt)*
- *'The Lombard' (Y Lawnt)*
- *Plas Brith*
- *Terasyn rhedeg yn unionlin â'r Lawnt (nesaf at Plas Brith).*
- *Terasau nesaf at Tan-y-Fynwent*
- *Storfa/adeilad diwydiannol, Pant Y Pistyll.*
- *Victoria Works, Pant Y Pistyll*
- *Cambrian Mill, Pant Y Pistyll*
- *Richmond House, Porth Canol*
- *Terasau (nesaf atGapel Tabernacl) Heol-y-Capel.*
- *Yr hen Eglwys Annibynol, Ffordd Cader Idris*
- *Capel Judah (Tylau Mair)*
- *Brynffynon (bellach Ffynnon), Tylau Mair*
- *1-4 Ffordd Bodlondeb*
- *Craig-y-Ffynnon*
- *Terrace arFrynteg, nesaf at Tan'r Allt.*


- *Bryntirion (Tylau Mair)*
- *Wenallt, Heol Plas Uchaf*
- *Caer Ffynnon, Heol Plas Uchaf*
- *Bryngwyn, Heol Plas Uchaf*
- *Wesley Place, Y Domen Fawr.*
- *Stablau, Ty Meurig, Heol Feurig.*
- *Clydfan, Heol Feurig*
- *Adeilad nesaf at Y Meirionnydd, Felin Isaf.*
- *Pen-y-Bryn (Tylau Mair/Heol Feurig)*
- *Capel Pendref, Maes-y-Pandy.*
- *Hen Dy Wesle (hen Gapel), Maes-y-Pandy.*
- *Grŵp o adeiladau i'r de o Wtra'r Felin.*
- *Jiwibili buildings Ffos-y-Felin*
- *Llys Meirion Ffos-y-Felin*
- *Spar (hen Gapel) Heol Plas-yn-Dre*
- *Frondeg a'r teras cyfagos (Y Domen Mawr).*
- *Adeilad ar Gornel Heol Feurig asgwâr Finsburyrhan o'r olygfa gyffredinol yn y Stryd Fawr*
- *Y Llyfrgell Rydd ar Wtra'r Felin*
- *Teras i'r gorllewin o Bont yr Aran*
- *Ystod ogleddol y gwaith nwy.*

6.3 Cofrestr Adeiladau Traddodiadol

- 6.3.1 Dylid hefyd ystyried 'Cofrestr Adeiladau Traddodiadol' yr Awdurdod. Gan fod y rhestr hon yn cael ei hadolygu trwy'r amser, ni fyddai'n ymarferol ei chynnwys yn y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth hwn. Cysylltwch â'r Awdurdod os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r gofrestr.'



Asedau Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig
1:4000 ar A4



7.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)

- 7.1.1 Ni wyddys dichonoldeb archeolegol safleoedd o fewn yr ardal gadwraeth yn benodol. Er bod tystiolaeth gref dros weithgaredd cynhanesyddol yn y cyffiniau, mae'r ardal gadwraeth yn fwy cysylltiedig â chanrifoedd diweddarach.
- 7.1.2 Er bod y dref ganoloesol ac ôl-ganoloesol wedi'i chofnodi'n eithaf da, mae dal dichon iddi gael ei deall yn well, o bosibl drwy waddodion o dan ddaear neu olion o fewn y strwythurau sy'n sefyll.

8.0 Asedau Dynodedig Eraill

8.1 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)


- 8.1.1 Saif yr ardal gadwraeth i'r gogledd o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cadair Idris.
- 8.1.2 Mae SoDdGA Bryn-y-Gwin Isaf SSSI nesaf at ardal gadwraeth Pandy'r Odyn (gweler adroddiad ar wahân), i'r gorllewin o Ddolgellau. Safle a nodir fel clwyd fagu bwysig i'r ystlum pedol lleiaf.

8.2 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)

- 8.2.1 Mae ardaloedd i'r de o'r ardal gadwraeth wedi'u dynodi'n ardal gadwraeth arbennig (ACA), sef Coedyn Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion.
- 8.2.2 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yw safle a ddynodwyd o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd fel rhan o rwydwaith Natura 2000. Mae safleoedd Natur o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer gwarchod ystod o gynefinoedd a rhywogaethau bregus o ffawna a fflora gwyllt. Mae ACAoedd yn cynnwys cynefinoedd tirol a morol (ac eithrio adar sydd o dan warchodaeth ar wahân) a chânt eu rhestru yn y Gyfarwydddeb Cynefinoedd.

8.3 Gorchymyn Cadw Coed

- 8.3.1 Nid oes gorchymion Cadw Coed wedi'u cofnodi ar hyn o bryd yn yr Ardal Gadwraeth (yn ychwanegol at y warchodaeth a roddir beth bynnag). Gweler Ffig 56.



8.4 Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig

- 8.4.1 Saif y pentref yn nhirwedd hanesyddol cofrestredig HLW (Gw) 13 – Bro Dolgellau.²⁸

9.0 Bioamrywiaeth

9.1 Coed

- 9.1.1 Gweler 8.3 am Orchmynon Cadw Coed.
- 9.1.2 Gweler 4.3 am ddisgrifiadau o goed/ardaloedd o goed allweddol o fewn yr ardal gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.
- 9.1.3 Mae **Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru** yn weithredol o fewn sawl Ardal Gadwraeth, gan gynnwys ardaloedd sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, ac mae'n ceisio amddiffyn ac adfer cynefinoedd coetiroedd prin yr liverydd trwy reoli Rhododendron ponticum a rhywogaethau estron ymledol eraill. Pan gynigir gwaith, cynlluniau plannu, tirlunio, cynnal a chadw neu ddatblygiad o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth hyn, dylid ystyried boddigolwch, atal cyflwyno rhywogaethau ymledol newydd, a'r effaith bosibl ar gynefinoedd fforestydd glaw Celtaidd cyfagos. Dylid ceisio cyngor cynnar gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri lle gall cynigion effeithio ar ardaloedd sy'n gysylltiedig â'r prosiect neu gynnwys disodli rhywogaethau, clirio llystyfiant neu reoli cynefinoedd.

9.2 Rhywogaethau a Warchodir.

- 9.2.1 Gwyddys fod nifer o rywogaethau pwysig a warchodir yn ardal Dolgellau, yn arbennig ar lethrau Cadair Idris. Mae'r rhain yn cynnwys:
- *Gwybedogion Brith* (*Ficedula hypoleuca*)
 - *Gwybedogion Mannog* (*Muscicapa striata*)
 - *Tingochion* (*Phoenicurus phoenicurus*)
 - *Telorian y Coed* (*Phylloscopus sibilatrix*)

²⁸[https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/historiclandscape/FullReport?lang=&id=HLW%20\(Gw\)%2013](https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/historiclandscape/FullReport?lang=&id=HLW%20(Gw)%2013)

- 9.2.2 Gwyddom hefyd fod gwenoliaid a gwenoliaid duon yn nythu ym mondo mawr nifer o adeiladau a chofnodwyd gwahanol fathau o ystlumod hefyd.



YR AIL RAN – CYNLLUN RHEOLAETH ARDAL GADWRAETH.

1.0 Dadansoddiad Crynodeb CGCB

CRYFDERAU



- Nifer dda o ymwelwyr a phoblogrwydd
- Hunaniaeth weledol a diwylliannol gref
- Rhaglen Treftadaeth Treflun Dolgellau yn llwyddiannus.
- Cadw ffenestri, gwaith coed a gwydr hanesyddol.
- Ystod dda o garreg a manylion carreg drwy'r dref.
- Gosodiad tirwedd.
- Ystod dda o siopau a gwasanaethu lleol.
- Presenoldeb llwybrau tref a dehongli yn caniatáu ymgysylltiad â'r dreftadaeth.
- Y cyd-destun gweledig wedi'i gadw uwchben y dref.
- Mae gan y dref nifer o sgwariau pwysig sy'n rhoi ansawdd nodedig iawn iddi.



Dolgellau

CYFLEOEDD

- Rhestru mwy o adeiladau allweddol a gwell gwarchodaeth i'r dref a'r adeiladau neilltuol.
- Cyflwyno cyfarwyddyd erthygl 4 i warchod ffenestri a nodweddion allweddol.
- Sawl safle gwag neu prin yn cael eu defnyddio, yn cynnwys yr ardaloedd o amgylch yr hen waith nwy ac ar Heol Glyndwr, lle parcio ar y Lawnt a nesaf at Tan-y-Gader.
- Defnyddio technolegau cynaliadwy yn sensitif.
- Gwellu sgwariau'r dref drwy well defnydd, arwynebau gwell a rheoli parcio.
- Gwell arwynebau a rheoli parcio
- Dod o hyd i ddefnydd cynaliadwy i adeiladau gwag yn cynnwys London House a'r hen siop bapur ar Heol-y-Bont a Heol Glyndwr, y Warws ar Gae Tanws Bach, Penbryn a Choetsiws a Stabiau Bryn House.
- Gwell rheolaeth ar ddatblygiadau newydd yn yr ardal gadwraeth ac o'i chwmpas.
- Dod yn ôl a defnydd mwy traddodiadol o doi â llechi mewn haenau gostyngol.



GWENDIDAU

- Swm y traffig sy'n dod i mewn ac yn mynd trwy'r dref, a'r problemau parcio cysylltiedig.
- Mae'r ardaloedd diwydiannol y tu ôl i Fwthyn Pont yr Aran, yn cael effaith andwyol ar gyd-destun y bont a'r tŷ.
- Nifer yr arwyddion ffordd ac arwyddion eraill ar draws canol y dref, yn enwedig nesaf at adeiladau allweddol.
- Cyflwr rhai adeiladau pwysig yn cynnwys Tŷ Meirion a'r adeilad mawr ar gornel Heol-y-Bont a Heol Glyndwr a Bwthyn Pont yr Aran, y Warws ar Gae Tanws Bach, a Choetsiws a Stabiau Bryn House.
- Graddfa'r newid (yn bennaf ffenestri, gwaith pren, ayb. wedi'u disodli gan uPVC).
- Weirio uwchben ar Ffos Y Felin.
- Blociau tai modern ar Y Lawnt.

BYGYTHION

- Lefel gynyddol o newid anaddas (e.e. ffenestri plastig, deunydd toi, ychwanegiadau ansensitif), yn bygwth y cymeriad cynhenid.
- Lefel traffig a phwysau gan dwristiaid.
- Datblygiadau yn tresmasu yn yr ardal gadwraeth ac o'i hamgylch yn enwedig o gwmpas y filâu a'r cyd-destun amaethyddol.
- Nifer cynyddol o lety AirBnB a thai gwyliau, angen cydbwysedd.
- Diffyg rheoli manylion y newid i'r adeiladau presennol a datblygiadau newydd.

2.0 Deall y Materion

2.1 Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

- 2.1.1 Mae Dolgellau wedi cadw llawer o'i chymeriad arbennig, yn rhannol drwy ei ffurf afreolaidd, sy'n arwain at ofodau, ffurfiau adeiladau a golygfeydd anarferol.
- 2.1.2 Yn ogystal, mae'r dref wedi cadw cryn dipyn o'i chymeriad o ran deunyddiau, drwy'r garreg, y manylion carreg ac, yn enwedig, nifer y ffenestri cynnar a manylion y saernïaeth a gadwyd.
- 2.1.3 Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau wedi'u meddiannu neu mewn defnydd buddiol, mae newid mewn meddiant manwerthu ac mae rhai adeiladau'n wag ar hyn o bryd, ond nifer fach yw hyn o'u cymharu â threfi eraill tua'r un maint. Gwnaeth y rhaglen Treftadaeth Treflun wahaniaeth mawr yn gwarchod, cadw ac adfer manylion yn ogystal â dod ag adeiladau gwag neu segur yn ôl i ddefnydd.
- 2.1.4 Ceir rhai manylion sy'n effeithio'n andwyol ar ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Newid gwaith coed, ffenestri a drysau hanesyddol yn rhai modern, uPVC fel arfer, yn cynnwys addasu blaenau siopau. Yma mae'r rhaglen treftadaeth tirlun wedi cael effaith gadarnhaol.
 - Siediau diwydiannol modern mawr (sylwer fod tarddiadau cynnar ganrai) o amgylch Pont yr Aran.
 - Colli wynebau ffordd traddodiadol i greu llefydd parcio.
 - Datblygiadau o ansawdd gwael yn erydu'r gosodiad.
 - Nifer o adeiladau gwag.
 - Toreth arwyddion modern (yn enwedig arwyddion ffyrdd), dodrefn stryd cysylltiedig a hefyd y weirio uwchben (hyn yn arbennig o wir am Borth Marchnad)
- 2.1.5 Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:



57 Lle parcio a thirweddau gwael, Y Lawnt. (2022).



58 Ffenestri gwael a phaent modern, Garn View, Heol Feurig. (2022).

- Ffenestri a drysau newydd ar rai adeiladau allweddol yn yr ardal gadwraeth, yn arbennig ar Heol Feurig, Heol Plas Uchaf a phen gogleddol Y Lawnt.
- Datblygiad modern yn enwedig o amgylch Tylau Mair ac i'r de o'r ardal gadwraeth, ar dir amaethyddol ac o fewn cyn erddi oedd wedi'u tirlunio.
- Defnyddi pwyntio a rendrad modern, er enghraifft ar Benybryn ar Ffordd Cader Idris.

2.1.6 Nid yw datblygiadau yn yr ardal gadwraeth ac o'i hamgylch, hyd yma, wedi bod o ansawdd digonol, i adlewyrchu cymysgedd unigryw'r bensaernïaeth. Dylid disgwyl deunyddiau a dyluniad o well ansawdd.

2.2 Adeiladau mewn Perygl

2.2.1 Mae'r hen siop bapur ar Heol-y-Bont yn wag ar hyn o bryd ac wedi'i bordio hyd at y lloriau uchaf. Mae hwn yn adeilad rhestredig allweddol gyda chryn dipyn o fanylion gwreiddiol, a blaen siop pwysig ar lefel y stryd. Roedd hi'n ymddangos fod yr adeilad ar werth adeg yr arolwg.

2.2.2 Adeilad amlwg yn sefyll ar ei ben ei hun yw Tŷ Meirion ar y Stryd Fawr. Arferai fod yn Ganolfan Croeso, ond roedd yr adeilad yn edrych yn wag adeg yr arolwg ac yn dechrau dirywio.

2.2.3 Mae adeiladau diwydiannol a gwasanaeth yn rhan bwysig o'r ardal gadwraeth, ac mae yna nifer ar hyn o bryd nad ydynt yn cael defnydd llawn neu fuddiol. Mae'r rhain yn cynnwys warws i Gae Tanws Bach a Choetsiws a Stablau Bryn House.

2.2.4 Roedd Penbryn (tŷ a thyddyn) ar Ffordd Cader Idris wedi'u bordio'n rhannol. Mae'r adeiladau wedi dioddef hefyd gan ailbwyntio gwael mewn sment.

3.0 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.

3.1.1 Gwnaed dadansoddiad CGCB (SWOT) i Ardal Gadwraeth Dolgellau. Defnyddir hwn i dynnu sylw at y problemau, ond hefyd at rai o gyfleoedd a chryfderau cynhenid yr ardal gadwraeth. Bydd wedyn yn sail i greu'r cynigion rheoli cadarnhaol sy'n dilyn.



59 Yr hen siop bapur (restredig) yn wag ar Heol-y-Bont. (2022).



60 Gosodiad gwael i Fwrthyn Pont yr Aran (2022).

3.1.2 Mae'r dadansoddiad CGCB yn dangos nifer o bwyntiau allweddol i weithredu arnynt, er mwyn adeiladau ar gryfderau a chyfleoedd yr Ardal Gadwraeth:

- Cefnogi adfer manylion adeiladau traddodiadol ac uwchraddio cynaliadwy er mwyn cael gwell perfformiad amgylcheddol.
- Dod o hyd i ddefnydd newydd i'r hen siop bapur, Tŷ Meirion, y warws ar Gae Tanws Bach a Bwthyn Pont yr Aran gan sicrhau fod eu harwyddocâd yn cael ei ddiogelu a'i wella, ac yn ddelfrydol eu cadw at ddefnyddiau sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd.
- Annog datblygiadau newydd addas ar safleoedd gwag, yn cynnwys y llain ar Heol Glyndwr (nesaf at adeiladau'r Jiwibili).
- Ytsyried gwelliannau i wyneb y ffordd mewn ardaloedd allweddol, er enghraifft o flaen y Golden Lion.
- Sicrhau fod y manylion gwreiddiol pwysig sy'n weddill yn yr Ardal Gadwraeth yn cael eu gwarchod drwy weithredu rheolaethau datblygu mwy llym, yn cynnwys *cyfarwyddyd Erthygl 4*
- Ystyried integreiddio technolegau ac ôl-osod cynaliadwy lle na fydd y rhain yn effeithio'n andwyol ar gymeriad yr ardal gadwraeth neu'r adeilad penodol.
- Parhau â'r rhaglen Treftadaeth Tirlun lwyddiannus iawn cyn hired â phosibl.

3.1.3 Mae'r dadansoddiad CGCB yn nodi nifer o wendidau a bygythiadau sy'n cael eu hadnabod fel pwyntiau gweithredu, mae'r rhain yn cynnwys:

- Ceisio ymgysylltiad cadarnhaol i wrthdroi newidiadau andwyol i adeiladau a nodweddion allweddol.
- Ystyried gwelliannau neu ychwanegiadau i hen safle'r gwaith nwy (tra'n parchu'r adeiladau hanesyddol, dynodedig ac annynodedig) a'r ardal ddiwydiannol o amgylch Bwthyn-yr-Arran.
- Gweithredu i sicrhau dyfodol adeiladau pwysig sy'n wag ar hyn o bryd, yn cynnwys yr hen siop bapur a Tŷ Meirion.



61 Coetsiws a Stablau Bryn House. (2022).

- Perswadio perchnogion a'r cyngor i leihau effeithiau parcio ar osodiadau hanesyddol. Mae Dolgellau yn arbennig o fregus gyda'r gofod o amgylch sgwariau bach/ardaloedd lletach, fel Felin Isaf.
- Adolygu cyfleoedd i wella'r tai a'r gosodiad ar Y Lawnt, drwy ymgysylltu â'r trigolion a'r gymdeithas dai.
- Ceisio ymgysylltu â'r awdurdod priffyrdd (Gwynedd) er mwyn lleihau graddfa a nifer arwyddion modern
- Ymgysylltu â chyflenwyr statudol ar broblem weirio uwchben, yn enwedig ar Borth Marchnad.

4.0 Rheolaeth Gadarnhaol.

4.1 Newidiadau i'r Ffin.

- 4.1.1 Cynigir ymestyn ffin yr ardal gadwraeth rhyw ychydig i gynnwys yr ardal o amgylch Glan Arran a Bythynodd Glan Arran. Gweler Ffig 62.

4.2 Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol

- 4.2.1 Ceir cyd-destun fframwaith deddfwriaethol Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen gyflwyniadol **Cyflwyniad i Ardaloedd Cadwraeth ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain**. Rhydd y ddogfen hon arweiniad a pholisïau cyffredinol hefyd.
- 4.2.2 Argymhellir cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Ardal Gadwraeth Dolgellau. Mae'r dref wedi'i chadw'n dda ac mae yno gryn nifer o hen ffenestri a gwaith coed ac y mae cyfle i atal rhagor o newid anaddas fel tynnu ymaith ffenestri, gwaith coed a nwyddau dŵr glaw hanesyddol.
- 4.2.3 Fel y nodwyd yn 6.1 yr AAG, argymhellir ystyried cynnwys sawl adeilad ar y rhestr genedlaethol.

4.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

- 4.3.1 Dichon i fynd i'r afael â rhai o'r problemau (gw. 2.0) a'r gwendidau a'r bygythiadau i'r Ardal Gadwraeth wella ei diddordeb arbennig yn sylweddol. Hyn trwy rymoedd neu arweiniad cynllunio estynedig.
- 4.3.2 Mae'r materion penodol sydd angen sylw yn Ardal Gadwraeth Dogellau yn cynnwys:
- Gweithredu rheolaethau rheoli datblygiad (cyfarwyddyd erthygl 4) i reoli colli manylion gwaith coed a nodweddion hanesyddol
 - Ceisio dod o hyd i ddefnyddiau hir dymor i'r adeiladau Gwag y cyfeiriwyd atynt yn 2.2.
 - Ceisio rheoli datblygiad mewnlennol a datblygiadau o ansawdd anaddas (annog peidio â datblygu ar y tir amaethyddol neu o fewn gerddi'r filâu o amgylch Tylau Mair) ar ymylon yr ardal gadwraeth.
 - Ystyried paratoi canllaw dylunio ar gyfer safleoedd allweddol, megis yr hen waith nwy, neu leoliadau eraill o amgylch y dref sy'n cynnig cyfle.
 - Annog ailosod manylion gwaith coed mwy addas i adeiladau o arwyddocâd lleol, yn lle rhai UPVC modern.
 - Gwella rôl sgwariau hanesyddol ac arwyddocaol tref Dolgellau fel mannau agored croesawgar, hygyrch ac sy'n canolbwyntio ar bobl; mannau sy'n cefnogi bywyd cymunedol, gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol a bywiogrwydd canol y dref. Annog defnyddiau priodol a gwelliannau sensitif i'r parth cyhoeddus, gan gynnwys rhesymoli parcio cerbydau lle byddai hynny'n diogelu cymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth yn well, yn gwella diogelwch a hygyrchedd i gerddwyr, ac yn cefnogi amcanion ehangach datgarboneiddio.
- 4.3.3 Gan ddefnyddio'r cyfarpar uchod a thrwy ymgynghori (gw. isod), codi ymwybyddiaeth ac amlygrwydd yr Ardal Gadwraeth ac annog datblygu a newid addas. Hyn i gynnwys:
- Ymwybyddiaeth â pherchnogion a chymuned Dolgellau.
 - Codi ymwybyddiaeth a gwella medrau ar gyfer contractwyr a chrefftwyr lleol, gyda chefnogaeth yn y dyfodol.

4.4 Cynaliadwyedd a Gwella Amgylcheddol

- 4.4.1 Ceir arweiniad ynghylch yr arddull cywir ar gyfer cyflwyno gwelliannau effeithlonrwydd ynni, a'r caniatadau angenrheidiol yn Ardaloedd Cadwraeth Eryri, yn y ddogfen: ***Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol***.
- 4.4.2 Mae gan Ddolgellau rai cyfleoedd naturiol ar gyfer cynhyrchu ynni ar raddfa fechan a bu gorsaf bŵer rhannol drydan-dŵr yno yn yr 1960au. Cafwyd cynlluniau bach, yn cynnwys gosodiad 200kW yn Nhy Cerrig i'r gogledd orllewin o'r dref.
- 4.4.3 Dylid cefnogi ac annog cynlluniau ynni cynaliadwy lle nad ydynt yn effeithio er gwaeth ar gymeriad arbennig neu fioamrywiaeth yr ardal gadwraeth.


4.5 Bioamrywiaeth

- 4.5.1 Mae coed yn hanfodol bwysig i'r fioamrywiaeth a'r arwyddocâd esthetaid. Diogelir amrywiaeth o goed gan orchmynion cadw (gw. 8.3). Clustnodwyd coed eraill yn rhai o bwys yn yr ardal gadwraeth (gw. 4.3).
- 4.5.2 Mae cryn bosibilrwydd y gellid gwella bioamrywiaeth yr ardal gadwraeth. Gallai gweithredu gynnwys, er enghraifft:
- Gosod blychau adar ac ystumod a datblygu cynllun rheoli blychau
 - Gall defnyddio toeau gwair a nodweddion adeiledig eraill yn briodol mewn estyniadau neu adeiladau newydd, os yw'n addas i'r dreftadaeth adeiledig, wella cynefinoedd bywyd gwyllt
 - Rheoli a gwella gwrychoedd
 - Gwarchod coed yn ystod gwaith adeiladu
 - Caniatáu i goed aeddfedu'n ddiymyraeth.
 - Cadw pren marw safadwy a chreu cludeiriau pren marw ar gyfer pryfed a bywyd gwyllt arall.

- 4.5.3 Sicrhau fod datblygiadau'n cael eu llywio gan ardaloedd cymeriad neilltuol yr Ardal Gadwraeth a'u bod yn cyd-fynd â nhw ac yn ystyried tystiolaeth arall o nodweddion hanesyddol a sensitifrwydd tirwedd yr ardal o gwmpas.
- 4.5.4 Sicrhau y bydd cynigion datblygu yn gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.
- 4.5.5 Gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a sicrhau fod prosiectau'n cael eu rhoi ar waith i wella'r tirwedd a chreu a gwella cynefinoedd o werth cadwraeth natur.
- 4.5.6 Annog datblygiadau i gynnwys mesurau a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at fioamrywiaeth gyffredinol yr ardal.
- 4.5.7 Gwella'r seilwaith gwyrdd mewn ffordd sy'n darparu anghenion ynni'r ardal heb gael effaith andwyol ar fioamrywiaeth neu gymeriad yr ardal gadwraeth.

5.0 Ymgynghoriad

- 5.1.1 Bu drafft Cynllun Arfarnu a Rheoli'r Ardal Gadwraeth yn destun yr ymgynghoriad canlynol:
 - Cyngor Cymuned Dolgellau.
 - Drwy wefan y Parc Cenedlaethol.



Estyniad Arfaethedig i'r Ardal Gadwraeth
1:4000 ar A4

Atodiadau:

Atodiad A - Ffynonellau

Y prif ffynonellau gwybodaeth cyhoeddedig a ddefnyddiwyd ar gyfer cynhyrchu'r Arfarniad hwn fu:

Aston, M & Bond, J (1976) *The Landscape of Towns*. (Sutton Publishing Limited)

Beverley Smith, J. and Beverley Smith, L. (eds.) 2001. *History of Merioneth. Volume II. The Middle Ages*. Merionethshire Historical Society.

Brooks, I.P. (2017), *Plas Newydd, Eldon Square, Dolgellau, Meirionnydd*. Engineering Archaeological Services Ltd. Mynediad yma::

https://www.snowdonia.gov.wales/_data/assets/pdf_file/0016/251422/Adroddiad-Archaeolegol-Siop-Newydd-Saesneg-compressed.pdf

Brooks, I. P. (2019) *Y Sospan, Llys Owain, Dolgellau Standing Building Report*. Engineering Archaeological Services Ltd. Mynediad yma::

<https://www.archwilio.org.uk/arch/query/page.php?watprn=GAT45454&dbname=gat&tbnname=event&sessid=CHI2tacatqd&queryid=Q517907001646399781>

Cadw (2010), *Dolgellau, Deall Nodweddion Trefol*. Mynediad yma::

https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Dolgellau-%20Understanding%20Urban%20Character_0.pdf

Fenton, R. (1810), *Tours in Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan y Cambrian Archaeological Association in 1917)

Gwyn, D (2006), *Gwynedd: Inheriting a Revolution* (Phillimore, Chichester) Hall, W. (1881),

Gwyn, D *Welsh Slate: The Archaeology and History of an Industry* (RCAHMW 2015).

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (GAT), *Marian Mawr, Dolgellau*, Archaeological Assessment. Report no 1293 (2016). Mynediad yma::

https://coflein.gov.uk/media/172/102/gatp017_04_01.pdf

Haslam, R., Orbach, J. and Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (Yale University Press, London)

Hughes H & North H. L. *'The Old Churches of Snowdonia'* (1924).

Lewis, S. (1849), *A Topographical Dictionary of Wales* (London)

Longley, D. (2012). *Plas Newydd, Eldon Square, Dolgellau Meirionnydd*. Adroddiad i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Pennant, T. (1781), *The Journey to Snowdon* (London) Pugh, E. (1816), *Cambria Depicta*

Richards, A.J. (2007), *Gazetteer of Slate Quarrying in Wales*, Llygad Gwalch.

Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (London)

Smith, B. & Neville George, T. *British Regional Geology – North Wales (HMSO) 1961*.

Talbot, J & Cosgrove, J. (2017) *Roadside Geology of Wales*, Geologists Assoc.

Historic Landscape Characterisation Studies - <http://www.heneb.co.uk/hlc/dolgellau.html>